# Cynnwys

Cynnwys
Rhaglen 2
4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 5
5 - Adroddiad Datganiad Strategaeth Cyllido 9
Atodiad A 11
6 - Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Buddsoddi Blynyddol 2014-15 36
Atodiad A 38
Atodiad B 48
7 - Strwythurau Llywodraeth CPLlL - Bil Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 49

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

**PENSIONS COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2:00pm, DYDD LLUN, 17 MAWRTH 2014**

**2:00pm, MONDAY, 17 MARCH, 2014**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GWYRFAI,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES,**
**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Lowri Haf Evans**

**(01286 679878)**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

**PWYLLGOR PENSIYNAU**
**PENSIONS COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP**

**Plaid Cymru (3)**
Y Cynghorwyr / Councillors
Peredur Jenkins
Dafydd Meurig
W. Tudor Owen

**Annibynnol/Independent (2)**
Y Cynghorwyr/Councillors
Trevor Edwards
John Pughe Roberts

**Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)**
Y Cynghorydd/Councillor Stephen Churchman

**Llais Gwynedd (1)**
Y Cynghorydd/Councillor Peter Read

**Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret Lyon, Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy /Conwy County Borough Council Representative

Y Cynghorydd/Councillor Hywel E. Jones, Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council Representative

**Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

1. **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

   Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. **MATERION BRYS**

   Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

4. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2014 fel rhai cywir

   (copi yma – papur ***gwyn***)

5. **YMATEB Y CYFLOGWYR I'R YMGYNGHORIAD AR Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO**

   Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol

   (copi yma – papur ***glas***)

6. **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS a STRATEGAETH BUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2014/2015**

   Cyflwyno adroddiad Pennaeth Cyllid

   (copi yma – papur ***gwyrdd***)

7. **STRWYTHURAU LLYWODRAETHU CPLIL – BIL PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS**

   Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

   (copi yma – papur ***melyn***)

# PWYLLGOR PENSIYNAU, 20.01.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Margaret Lyon (cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dafydd Meurig, W Tudor Owen a John P. Roberts.

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Hywel E Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Peredur Jenkins

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Read. Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Margaret Lyon ar farwolaeth ei gwr yn ddiweddar.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Nodwyd cais gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol i drafod 'Mynegiant Sylfaenol' (Fundamental Indexing). Cytunwyd i drafod hyn ar ôl yr eitemau oedd ar y rhaglen.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7fed o Hydref 2014 fel rhai cywir.

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO 2014/15 – 2016/17

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlinellu'r angen i'r Pwyllgor gadarnhau'r rhagdybiaethau a'r polisïau arfaethedig a amlinellir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) drafft fydd yn destun ymgynghoriad gyda holl gyflogwyr y Gronfa. Mae yn ofynnol adolygu a chyhoeddi DSC bob tair blynedd. Cafodd DSC cyfredol Gwynedd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau ar Fawrth 22ain 2011, ac felly yn ofynnol ei adolygu erbyn diwedd Mawrth 2014.

Bydd gofyn i'r Awdurdod sydd yn gweinyddu, ymgynghori gyda'r cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun, actiwari ac ymgynghorydd y gronfa, ac unrhyw rai eraill sydd yn cael eu hystyried yn addas.

Cyfeiriwyd at y prif faterion a manylwyd ar y prif newidiadau.

- Y Premiwm Risg gydag Ecwiti.
  Yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn hytrach na bondiau. Cyfeiria hyn at y gwahaniaeth rhwng yr enillion a ddisgwylir o ecwiti a'r enillion a ddisgwylir o bondiau. Fel mae'r rhagdybiaeth o'r gwahaniaeth rhwng yr enillion disgwyliedig yn cynyddu, mae'r risg yn cynyddu a'r sail cyllido yn mynd yn llai darbodus. Ym mhrisiant 2010 roedd y dybiaeth ar gyfer yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn 1.4%. Defnyddir cyfraddau bondiau ar 31 Mawrth 2013 i gyfrifo ymrwymiadau yn y dyfodol. Bu rheiny ar lefel hanesyddol isel pryd hynny, ond maent wedi gwella yn ystod 2013/14 a disgwylir cynnydd pellach yn y tymor hirach. Er mwyn gwneud iawn am hynny, mae'r dychweliadau ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddiadau mewn ecwiti wedi ei gosod ar 1.7% yn y DSC / prisiant cyfredol. Bydd hyn yn llyfnhau cyfraniadau cyflogwyr dros gyfnod eithriadol 2014/15 – 2016/17, cyn bydd y trefniant yn cael ei adolygu yn y prisiad nesaf, gyda'r disgwyliad bydd y premiwm yn gostwng yn ôl i 1.4% os bydd dychweliadau giltiau wedi gwella.

- Cyfnod ar gyfer Adfer Diffyg
  Amlygwyd bod y cyfnodau adfer diffyg yn parhau ar gyfer prisiad 2013, hynny yw, Cyrff Statudol - cyfnod o 20 mlynedd: Grŵp Llandrillo Menai - cyfnod o 15eg mlynedd; Pob cyflogwr arall - gweddill oes y gweithiwr.

- Prif Gyrff gyda Phwerau codi treth (Gwynedd, Môn, Conwy, Yr Heddlu a'r Parc Cenedlaethol).
  Amlygwyd y byddai'r prif gyrff gyda phwerau codi trethi yn dal i dalu'r un gyfradd cyfraniadau a chyfradd 2013/2014 dros y tair blynedd nesaf.

- Cyflwyno Cynnydd mewn Cyfraniadau yn Raddol
  O ganlyniad i'r penderfyniad o ddiddymu dau bŵl, ymddengys y gall rhai cyflogwyr dderbyn cynnydd mewn cyfraniadau ac eraill ostyngiadau. Ar gyfer codiadau'r prisiad 2013, fe'i lledaenir dros chwe blynedd. Bydd gostyngiadau mewn cyfradd i gyflogwyr a oedd yn gyn aelod o bwll dros dair blynedd yn cael eu rhannu. Bydd cyflogwyr eraill sydd gyda gostyngiad yn eu cyfraddau cyfraniadau yn symud yn syth i'r gyfradd newydd ar 1.4.2014. Bydd y newid hwn yn cadw balans ac yn lleihau risg i'r gronfa.

- Casglu Diffygion Hanesyddol
  Eglurwyd bod cyflogwyr sydd mewn diffyg yn talu cyfraniadau cyflogwyr ychwanegol er mwyn adennill y diffyg yn raddol dros amser. Yn y gorffennol, datganwyd y swm fel canran o'r gyflogres a gafodd ei ychwanegu at gyfradd gwasanaeth y dyfodol. Oherwydd y sefyllfa ariannol, ac er mwyn gwarchod y gronfa bensiwn pryd bydd y cyfanswm nifer staff yn gostwng, datgelir taliadau diffyg fel cyfandaliad arian i'w talu mewn 12 rhandaliad misol fel rhan o'u cyfraniadau cyflogwr.

Cam nesaf y broses fydd ymgynghori â'r cyflogwyr ar y Datganiad Strategaeth Cyllidol. Yn dilyn y broses ymgynghori, bydd y Pwyllgor yn derbyn fersiwn derfynol gyda'r bwriad o'i mabwysiadu erbyn 31ain Mawrth 2014.

**PENDERFYNWYD**
**Derbyn y rhagdybiaethau a'r polisiau a amlinellwyd yn y Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) drafft.**

## 6. STAFFIO'R UNED BENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlinellu'r angen i greu swydd Cymhorthydd Pensiynau i ymuno â thîm yr uned. Er mwyn i Uned Weinyddiaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd gynnal, gwella a datblygu lefel briodol o wasanaeth i'w holl aelodau, (cyflogwyr, gweithwyr a phensiynwyr), sy'n cydymffurfio â'r holl ymrwymiadau a'r rheoliadau statudol perthnasol, mae'n hanfodol y darperir adnoddau staffio digonol.
Crybwyllwyd y newidiadau diweddar i weithredu Cynlluniau Pensiynau Llywodraeth Leol fydd o ganlyniad, yn rhoi cynnydd sylweddol yn llwyth gwaith gweinyddol yr uned -

- Bydd rhaid darparu manylion blynyddol i aelodau ar werth y croniad cynnydd mewn budd pensiwn, a'i gynnwys yn y datganiad buddion blynyddol, i'r aelod ei fesur yn erbyn y lwfans blynyddol.

- Bydd rhaid i staff yr uned ddelio ag, a chael gwybodaeth drwyadl, ar dri chynllun pensiwn - y cynllun hyd at 2008, y cynllun rhwng 2008 a 2014, a'r cynllun 2014. Ar sail bod dehongliad cyflog pensiynadwy yn y cynllun 2014 yn wahanol i beth sydd yn gyfredol yn y ddau gynllun cyntaf, presennol mae'n golygu gwaith gweinyddol ychwanegol er mwyn darparu gwerthoedd buddion ar gyfer datganiadau blynyddol a phob enghraifft / agwedd o adael y cynllun gyda buddion.

- Mae cofrestru awtomatig yn golygu creu a phrosesu cofnodion aelodau fydd yn ymddangos fel 'ymadawyr' o'r cynllun yn syth.

Y bwriad, fel Uned, yw parhau i gynnal clinigau pensiwn a seminarau, ond bellach, oherwydd yr holl gymhlethdodau, bydd hyn yn ei hun yn creu mwy o ymholiadau a cheisiadau am eglurhad ac amcangyfrifon.

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol sydd ohoni a'i effaith ar wariant cyhoeddus, mae cynnydd mawr yn y ceisiadau am amcangyfrifon ymddeoliadau cynnar, ayb, gan gyflogwyr. Yn ogystal, maent yn edrych mwyfwy ar allanoli gwasanaethau sydd yn ei hun yn gosod pwysau ar yr uned i ddarparu manylion a chostau pensiwn y gweithlu ynghlwm a'r gwasanaethau perthnasol.

**PENDERFYNWYD:**
**Creu swydd newydd Cymhorthydd Pensiynau, ar raddfa GS5 (pwyntiau cyflog 14 (£15,882) - 17 (£16,998) yn ddarostyngedig i adolygiad a chadarnhad gan Adnoddau Dynol, i ymuno â thîm yr uned ac i gynorthwyo'r rheng flaen weinyddol yn unol â swydd ddisgrifiad generig yr uned.**

## 7. CYNHADLEDD BLYNYDDOL LAPFF ' LICENCE TO OPERATE – HOLDINGCOMPANIES TO ACCOUNT

Adroddiad yn cael ei gyflwyno gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlinellu uchafbwyntiau Cynhadledd Blynyddol LAPFF a gynhaliwyd Rhagfyr 2013. Cynghorydd John Pughe Roberts a Caroline Roberts, Rheolwr Buddsoddi wedi mynychu'r digwyddiad.
Nodwyd bod y gynhadledd wedi bod yn gyfle da i dderbyn gwybodaeth gan gyrff allanol ac unigolion sydd yn ceisio gwella llywodraethu, cynaladwyedd ac atebolrwydd er budd busnesau a'u cyfranddalwyr.

Cyfeiriwyd at gyflwyniadau yn ymwneud â

- Phanel Buddsoddwyr
- Fframwaith Caffael
- Cyfarwyddwyr Dylanwadol
- A dadl safonau cyfryngau oedd yn gyflwyniad gan Martin Hickman, cydawdur ‘Dial M For Murdoch’ ar y saga hacio ffonau News of The World. Pwysleisiodd yr angen i wella safonau’r cyfryngau a diwygio dulliau llywodraethu, gan sicrhau Cadeirydd annibynnol ar y Bwrdd.

Cyfle da i weld y gwaith da mae LAPFF yn ei wneud ar ran yr holl gyfranddalwyr. Mae nifer o gynrychiolwyr o’r cronfeydd CPLlL yn Lloegr a Chymru yn ymrwymo amser ac adnoddau sylweddol i’r broses hon ar ran holl aelodau LAPFF.

**8. SEMINAR BUDDSODDI’R LGC – 27/28 CHWEFROR 2014.**

Eglurwyd fod cyfle i un aelod fynychu'r gynhadledd uchod yn De Vere Carden Park, Caer. Prif nôd y gynhadledd yw trafod dyfodol cyllidebau pensiwn mewn Llywodraeth Leol Gofynnwyd i’r Pwyllgor ethol un Aelod i fynychu’r seminar gyda’r Pennaeth Cyllid. Cynigwyd y Cynghorydd W Tudor Owen. Derbyniwyd.

**PENDERFYNWYD**
**Cynghorydd W Tudor Owen i fynychu’r seminar ynghyd â’r Pennaeth Cyllid.**

**9. MATER BRYS - ‘MYNEGIANT SYLFAENOL’ / ‘FUNDAMENTAL INDEXING’.**

Gwnaed cais gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol i’r Pwyllgor ystyried dirprwyo’r hawl iddo wneud penderfyniadau ar lefelau / canrannau buddsoddi.
Eglurwyd pan fydd y Panel Buddsoddi yn cwrdd yn Llundain, amlygwyd nad oes gan y panel yr hawl i wneud penderfyniad gan nad ydyw yn cwrdd fel Pwyllgor.
Wrth drafod y ‘mynegiant sylfaenol’ bydd gofyn gwneud penderfyniad ar y lefelau buddsoddi er mwyn medru symud ymlaen ragblaen.

**PENDERFYNIAD**
**Cymeradwywyd y cais i Ddirprwyo’r Hawl i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol wneud penderfyniad ar eu rhan ar lefelau / canrannau buddsoddi mewn mynegiant sylfaenol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:35pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **17 MAWRTH 2014** |
| **TEITL** | **YMATEB Y CYFLOGWYR I'R YMGYNGHORIAD AR Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

**1. CYFLWYNIAD**

**1.1** Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yma yn ei gyfarfod ar 20 January 2014, mae'n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) erbyn 31 Mawrth 2014. Fel rhan o'r adolygiad yma mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddol, ymgynghori gyda phob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, gydag actiwari ac ymgynghorydd y gronfa a chydag unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas.

**1.2** Yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2014, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau ar y polisïau canlynol:

- Ym mhrisiant 2010 roedd y dybiaeth ar gyfer yr enillion ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddi mewn ecwiti yn 1.4%. Oherwydd bod cyfraddau bondiau, sydd yn cael eu defnyddio i gyfrifo ymrwymiadau yn y dyfodol, ar lefel hanesyddol isel ar 31 Mawrth 2013 mae'r ymrwymiadau yma wedi cynyddu. Mae'r gyfradd bondiau wedi gwella ers hynny a disgwylir cynnydd yn y tymor hirach felly mae'r dychweliadau ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddiadau mewn ecwiti wedi ei gosod ar 1.7%. Bydd hyn yn llyfnhau cyfraniadau cyflogwyr dros gyfnod eithriadol a cheir ei adolygu yn y prisiad nesaf gyda'r amcan i ostwng i 1.4% pan mae dychweliadau giltiau yn gwella.

- Ym mhrisiant 2010 parhaodd yr awdurdod gweinyddol gyda'r cyfnodau adfer diffyg fel y ganlyn:
    - Cyrff statudol – 20 mlynedd
    - Grŵp Landrillo Menai - 15 mlynedd
    - Bob cyflogwr arall – gweddill oes gwaith

  Defnyddir y cyfnodau uchod ar gyfer prisiad 2013 hefyd.

- Bydd prif gyrff gyda phwerau codi trethi yn dal i dalu'r un gyfradd cyfraniadau a'r gyfradd 2013/14.

- Ar gyfer codiadau'r prisiad 2013 gellir eu lledaenu dros 6 mlynedd a rhennir unrhyw ostyngiadau mewn cyfradd i gyflogwyr a oedd yn gyn-aelod o bwll dros 3 mlynedd. Bydd cyflogwyr eraill sydd gyda gostyngiad yn eu cyfraddau cyfraniadau yn symud yn syth i'r gyfradd newydd ar 1 Ebrill 2014.

- Mae cyflogwyr sydd mewn diffyg yn talu cyfraniadau cyflogwyr ychwanegol er mwyn adennill y diffyg. Yn y gorffennol datganwyd y swm fel canran o'r gyflogres a gafodd ei ychwanegu at y gyfradd gwasanaeth y dyfodol. Oherwydd y sefyllfa ariannol ac er mwyn gwarchod y gronfa bensiwn datgelir taliadau diffyg fel cyfandaliad arian i'w talu mewn 12 rhandaliad misol fel rhan o'u cyfraniadau cyflogwr.

**1.3** Ar 24 Ionawr 2014, gyrrwyd llythyr ymgynghorol allan i bob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, i actiwari ac ymgynghorydd y Gronfa ac i gynrychiolwyr Unsain, TGWU a'r GMB, yn ymgynghori ar y tri pholisi a nodir yn 1.2 uchod. Gofynnwyd iddynt ymateb gydag unrhyw sylwadau erbyn 28 Chwefror 2014.

## 2. Yr Ymateb

**2.1** Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion.

## 3. Datganiad Strategaeth Cyllido Arfaethedig

**3.2** Mae copi o'r Datganiad Strategaeth Cyllido arfaethedig yn Atodiad A. Nid oes unrhyw newid o'r fersiwn a gafodd ei gyflwyno i'r pwyllgor hon ar 20 Ionawr 2014 a danfonwyd i'r cyflogwyr fel esbonioir yn rhan 3.1 uchod.

## 4. Argymhelliad

**4.1** Bod y Datganiad Strategaeth Cyllido arfaethedig (yn Atodiad A) yn cael ei fabwysiadu.

# 01. Cyflwyniad

Dyma Ddatganiad Strategaeth Cyllido (FSS) Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"), sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd, ("yr Awdurdod Gweinyddol").

Mae wedi'i baratoi gan yr Awdurdod Gweinyddol mewn cydweithrediad ag actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson LLP, ac wedi ymgynghoriad gyda chyflogwyr ac ymgynghorydd buddsoddi'r Gronfa, ac mae'n weithredol o 1 Ebrill 2014.

## 1.1 Fframwaith Rheoleiddiol

Mae buddiannau cronedig yr aelodau wedi'u gwarantu gan statud. Mae cyfraniadau'r aelodau yn sefydlog yn y Rheoliadau ar lefel sy'n gwarchod rhan o'r gost o grynhoi buddiannau yn unig. Mae cyflogwyr yn talu gweddill y gost o gyflwyno'r buddiannau i aelodau. Mae'r FSS yn canolbwyntio ar y cyflymdra y mae'r ymrwymiadau hyn yn cael eu cyllido a, gyhyd ag sy'n ymarferol, y mesurau i sicrhau bod cyflogwyr neu'r cyflogwyr cydgyfrannog yn talu am eu hymrwymiadau eu hunain.

Mae'r FSS yn ffurfio rhan o fframwaith sy'n cynnwys:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel ei newidiwyd), Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddiaeth) 2008 (fel ei newidiwyd) a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013;
- y Dystysgrif Cyfraddau ac Amrywiadau, sy'n amgaeedig ag adroddiad prisiant tair flynyddol actiwari'r Gronfa;
- ffactorau actiwaraidd ar gyfer prisio cost ymddeoliadau cynnar a chost prynu gwasanaeth ychwanegol; â'r
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Dyma'r fframwaith y mae actiwari'r Gronfa yn cynnal prisiannau tair blynyddol oddi mewn iddo, i osod cyfraniadau'r cyflogwyr a darparu argymhellion i'r Awdurdod Gweinyddol pan fo angen penderfyniadau cyllido eraill, megis pan fo cyflogwyr yn ymuno â'r Gronfa neu'n ei gadael. Mae'r FSS yn berthnasol i'r holl gyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa.

Wrth gyhoeddi'r FSS mae rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol yn ystyried arweiniad a chyhoeddir gan y Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA), y mwyaf diweddar yn 2012.

## 1.2 Adolygiadau o FSS

Mae'r FSS yn cael ei adolygu'n fanwl o leiaf bob tair blynedd cyn i'r prisiadau tair blynyddol gael eu cynnal, gyda'r disgwyl i'r adolygiad llawn nesaf gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2017. Yn amlach, mae **Atodiad A** yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r cyflogwyr.

Mae'r FSS yn grynodeb o agwedd y Gronfa at gyllido ymrwymiadau. Nid yw'n ddatganiad cynhwysfawr o bolisi ar yr holl faterion. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â Mrs Caroline Roberts i ddechrau, ar carolineroberts@gwynedd.gov.uk neu 01286 679128.

## 2. Pwrpas

### 2.1 Pwrpas yr FSS

Mae Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (CLG) wedi datgan mai pwrpas yr FSS yw:

- *"sefydlu* ***strategaeth cronfa-benodol glir a thryloyw*** *fydd yn adnabod y ffordd orau o gyrraedd ymrwymiadau pensiwn cyflogwyr wrth fynd ymlaen;*

- *cefnogi'r fframwaith rheoleiddiol i gynnal* ***cyfraddau cyfraniad cyflogwyr sydd mor gyson â phosibl****; a*

- *chymryd* ***golwg tymor hirach pwyllog*** *o gyllido'r ymrwymiadau hynny."*

Mae'r fframwaith hwn wedi'i ddylunio i sicrhau bod y strategaeth gyllido yn gydlynol a chynhwysfawr ar gyfer y gronfa yn ei chyfanrwydd, gan gydnabod y bydd rhai amcanion yn gwrthdaro weithiau ac y bydd angen eu cydbwyso a'u cysoni.

Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio ar fuddiannau gorau'r gronfa yn y tymor hir ac yn nodi sut bydd yr Awdurdod Gweinyddu wedi cydbwyso'r amcanion, sef fforddiadwyedd cyfraniadau, tryloywder prosesau, sefydlogrwydd cyfraniadau cyflogwyr a bod yn ddarbodus o ran y strategaeth cyllido.

Mae'r gofyn i gynnal a chyhoeddi FSS wedi ei gynnwys yn Rheoliadau'r LGPS.

### 2.2 Pwrpas y Gronfa

Mae'r Gronfa yn gerbyd i gyflwyno buddiannau'r cynllun.

Pwrpas y Gronfa yw:

- derbyn cyfraniadau, taliadau trosglwyddo ac incwm buddsoddi;

- talu buddiannau'r cynllun, gwerthoedd trosglwyddo a chostau gweinyddol.

## 2.3 Cyfrifoldebau Partïon Allweddol

Gweler crynodeb o rolau a chyfrifoldebau'r partïon allweddol sy'n gysylltiedig â rheoli'r cynllun pensiwn yn Atodlen B.

## 2.4 Amcanion y Strategaeth Cyllido

Mae amcanion strategaeth cyllido'r Gronfa yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau diddyledrwydd hir dymor y Gronfa [a rhan o'r Gronfa sydd i'w phriodoli i gyflogwyr unigol];
- sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu'r holl fuddiannau pan ddaw'n amser i'w talu;
- peidio â rhwystro strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn ddiangen, fel y gall yr Awdurdod Gweinyddol geisio gwneud y gorau o'r enillion ar fuddsoddiadau (a thrwy hynny leihau cost y buddiannau) am lefel briodol o risg;
- helpu cyflogwyr i adnabod a rheoli ymrwymiadau pensiwn wrth iddynt gronni;
- lleihau'r raddfa o newid byr dymor yn lefel cyfraniadau pob cyflogwr ble mae'r Awdurdod Gweinyddol yn ystyried ei bod hi'n rhesymol gwneud hynny;
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn y pen draw i Drethdalwyr y Cyngor, o gyflogwr yn diffygdalu ar ei ymrwymiadau pensiwn; â
- chyfeirio at wahanol nodweddion y gwahanol gyflogwyr neu grwpiau o gyflogwyr i'r graddau bod hyn yn ymarferol ac yn gost-effeithiol.

# 3. Materion Diddyledrwydd a Tharged Lefelau Cyllido

## 3.1 Tarddiad Cyfraniadau Cyflogwyr

Fel arfer mae cyfraniadau cyflogwyr wedi'u ffurfio o ddwy elfen:

a) amcan gost o fuddiannau'r dyfodol yn cael eu cronni, a gyfeirir ato fel "*cyfradd gwasanaeth y dyfodol*"; ynghyd ag

b) addasiad i safle cyllido (neu "diddyledrwydd") y buddiannau cronedig o'i gymharu â tharged diddyledrwydd y Gronfa, sef "*addasiad gwasanaeth y gorffennol*". Os oes gwarged efallai y ceir lleihad i'r cyfraniadau; os oes diffyg yna bydd ychwanegiad i'r cyfraniadau, gyda'r gwarged neu'r diffyg yn cael ei rannu dros gyfnod priodol.

Yn ôl y rheoliadau, mae gofyn i actiwari'r Gronfa adrodd y *Gyfradd Cyfraniad Cyffredin*[1], i'r holl gyflogwyr ar y cyd ym mhob prisiant tair blynyddol. Mae'n cyfuno eitemau (a) a (b) ac mae'n cael ei fynegi fel canran o'r tâl. Er dibenion cyfrifo'r Gyfradd Cyfraniad Cyffredin, mae'r gwarged neu'r diffyg o dan (b) ar hyn o bryd yn cael eu rhannu dros gyfnod o 20 mlynedd sef yr uchafswm cyfnod adennill diffyg i gyflogwyr mwyaf y gronfa.

Yn ogystal, mae gofyn i actiwari'r Gronfa addasu'r Gyfradd Cyfraniad Cyffredin ar gyfer amgylchiadau a bennir yn "hynod" i gyflogwr unigol[2]. Mewn gwirionedd y gyfradd cyfraniad wedi ei addasu sydd yn rhaid i'r cyflogwyr ei dalu. Trafodir y mathau o ffactorau hynod a ystyrir yn Adran 3.5.

I bob pwrpas, mae'r *Gyfradd Cyfraniad Cyffredin* yn swm damcaniaethol. Mae cyfraddau gwasanaeth y dyfodol wedi'u cyfrifo ar gyfer pob cyflogwr yn unigol ynghyd ag addasiadau gwasanaeth y gorffennol yn unol â chyfnodau rhannu a chamau sy'n benodol i'r cyflogwyr.

Mae'n bosibl y cytunir i rai cyflogwyr gyfuno cyfraniadau, gweler Adran 3.7.4.

Ar gyfer y prisiad 2013, mae'r Awdurdod Gweinyddol wedi penderfynu bod unrhyw addasiad ar gyfer gwasanaeth y gorffennol yn cael ei datgan fel swm arian (yn hytrach na chanran cyflogau) wedi ei lledaenu dros gyfnod priodol. Mae'r symudiad i gyfraniadau diffyg mewn arian yn gwarchod y Gronfa gan ei fydd yn dal i dderbyn y cyfraniad diffyg cywir os oes unrhyw leihad mewn cyflogau yn y dyfodol.

Mae **Atodiad A,** yn cynnwys dadansoddiad o gyfraniadau pob cyflogwr yn dilyn prisiant 2013 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16 a 2016/17. Mae'n cynnwys cysoni cyfradd pob cyflogwr gyda'r *Gyfradd Cyfraniad Cyffredin*. Mae hefyd yn adnabod pa gyfraniadau cyflogwyr sydd wedi'u cyfuno ag eraill.

[1] Gweler Rheoliad 77(4)
[2] Gweler Rheoliad 77(6)

Rhaid i unrhyw gostau ymddeoliadau cynnar nad ydynt yn ymwneud â salwch gael eu talu'n llawn ar adeg penderfyniad y cyflogwr yn ychwanegol i'r cyfraniadau a ddisgrifir uchod (neu drwy randaliadau yn fuan wedi'r penderfyniad).

Mae cyfraniadau'r cyflogwyr yn cael eu mynegi fel isafswm, gyda'r cyflogwyr yn medru talu cyfraniadau rheolaidd ar gyfradd uwch. Dylai cyflogwyr drafod gyda'r Awdurdod Gweinyddol cyn gwneud taliadau cyfalaf unigol.

Pan mae cyflogwyr mewn sefyllfa o warged ond mae'r gyfradd daladwy 2013/14 yn is na'r gyfradd gwasanaeth dyfodol prisiad 2013, yr isafswm cyfraniad y byddent yn ei dalu ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16 a 2016/17yw cyfradd 2013/14.

## 3.2 Diddyledrwydd a Tharged Lefelau Cyllido

Mae gofyn i actiwari'r Gronfa adrodd ar "ddiddyledrwydd" yr holl gronfa o leiaf bob tair blynedd.

Diffinnir "diddyledrwydd" i gyflogwyr parhaus i fod y gymhareb o werth marchnad yr asedau i'r gwerth a roddir ar fuddiannau cronedig ar *sail gyllido barhaus* actiwari'r Gronfa. Adnabyddir y swm hwn fel lefel gyllido.

Y sail gyllido barhaus yw'r hyn a ddefnyddir ar gyfer pob prisiant tair blynyddol ac mae actiwari'r Gronfa yn cytuno ar y tybiaethau ariannol a demograffig i'w defnyddio ar gyfer pob prisiant o'r fath, gyda'r awdurdod gweinyddol.

Mae'r gronfa yn gweithredu'r un targed lefel gyllido ar gyfer yr holl gyflogwyr parhaus o 100% o'i hymrwymiadau cronedig a brisir ar y sail barhaus. Dylech gyfeirio at baragraff 3.8 ar gyfer triniaeth cyflogwyr sy'n gadael.

## 3.3 Sail Cyllido Barhaus

Bwriedir i'r tybiaethau demograffig fod yn amcangyfrifon gorau ar gyfer profiad y Gronfa yn y dyfodol. Fel aelod o "Club Vita" y tybiaethau ar gyfer hirhoedledd sydd wedi eu mabwysiadu yn y prisiant yma yw set unigryw o "VitaCurves" sydd wedi eu teilwra yn benodol i weddu proffil aelodaeth y Gronfa. Mae consensws ymysg actiwarïaid y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella yn y dyfodol. Fodd bynnag does dim consensws pendant ynglŷn â pha mor gyflym y bydd y gwelliant hwn yn digwydd (nac am faint y bydd yn parhau). Mae'r proffesiwn actiwaraidd o'r farn y dylai'r lwfans ar gyfer gwelliannau mewn hirhoedledd fod ar ddisgresiwn pob cronfa bensiwn unigol, yn ddibynnol ar gyngor gan eu hactiwari.

Gall cyfraniadau gynyddu yn y dyfodol os bydd disgwyliad oes yn uwch na'r tybiaethau. Mae'r dull a ddefnyddir yn cael ei gysidro yn rhesymol o gofio natur hir dymor y Gronfa a'r lefel sicrwydd honedig sydd yn tanategu buddion aelodau. Mae'r tybiaethau demograffig yn amrywio yn ôl math o aelod ac felly yn adlewyrchiad o wahanol broffiliau aelodau'r cyflogwyr.

Y dybiaeth ariannol allweddol yw'r enillion a ragwelir ar fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae'r dybiaeth enillion ar fuddsoddiadau yn cymryd yn ganiataol bydd yr enillion a ragwelir o

ecwiti yn fwy na'r hyn geir ar fondiau. Nid oes, fodd bynnag, gwarant y bydd ecwiti yn perfformio'n well na bondiau. Mae'r risg yn fwy pan fo'n cael ei fesur dros gyfnodau byr megis y tair blynedd rhwng prisiannau actiwaraidd ffurfiol, pryd y gall yr enillion gwirioneddol a'r enillion tybiedig wyro llawer iawn.

Mae hi felly fel arfer yn briodol i gyfyngu'r gyfradd o newid i gyfraniadau cyflogwyr ar ddyddiadau prisiant tair blynyddol.

O gofio natur hir dymor iawn yr ymrwymiadau, cymerir golwg hir dymor o enillion arfaethedig o ecwiti. I bwrpas prisiad tair blynyddol 31 Mawrth 2013, a gosod cyfraddau cyfraniad sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2014, mae actiwari'r Gronfa yn tybio bod yr enillion o fuddsoddiadau yn y dyfodol a enillir gan y Gronfa yn yr hir dymor yn mynd i fod 1.7% yn uwch na'r cynnyrch tymor hir ar fondiau Llywodraeth y DU ar ddyddiad y prisiad. Yn y cyd-destun yma, mae'r hir dymor yn golygu 20-30 mlynedd neu fwy. Ym marn actiwari'r Gronfa, ar sail strategaeth buddsoddi gyfredol y Gronfa, mae tybiaeth o orberfformiad ased o 1.7% y flwyddyn yn dderbyniol i bwrpas y prisiad.

Er mwyn adlewyrchu'r disgwyliadau cyfredol ynglŷn â thwf cyflogau tymor byr, mae actiwari y gronfa wedi defnyddio tybiaeth twf cyflogau o 1% bob blwyddyn ar gyfer y 3 blynedd o 31 Mawrth 2014 ymlaen a thybiaeth tymor hir wedi hynny.

Mae'r un tybiaethau ariannol wedi'u mabwysiadu ar gyfer yr holl gyflogwyr parhaus. Mae gan yr holl gyflogwyr yr un dyraniad ased.

## 3.4 Cyfraddau Cyfraniad Gwasanaeth y Dyfodol

Mae elfen gwasanaeth y dyfodol o gyfradd cyfraniad cyflogwyr wedi'i gyfrifo ar sail y cyllido parhaus, gyda'r nod o sicrhau fod yna asedion digonol wedi'u casglu i ddiwallu taliadau buddiannau'r dyfodol yn nhermau gwasanaeth y dyfodol. Mae'r agwedd a ddefnyddir i gyfrifo cyfradd cyfraniad gwasanaeth y dyfodol pob cyflogwr yn dibynnu ar p'un a yw dechreuwyr newydd yn cael eu derbyn ai peidio. Dylai cyflogwyr nodi mai Cyrff a Ganiateir yn unig sydd â'r pŵer i beidio â derbyn yn uniongyrchol yr holl staff newydd gymwys i'r Gronfa, yn ddibynnol ar delerau eu Cytundebau Derbyn a'u contractau cyflogaeth.

### *3.4.1 Cyflogwyr sy'n derbyn dechreuwyr newydd*

Bydd cyfradd gwasanaeth y dyfodol y cyflogwr yn seiliedig ar gost (yn fwy na chyfraniadau'r aelodau) y buddiannau y mae gweithwyr sy'n aelodau yn eu hennill drwy eu gwasanaeth bob blwyddyn. Yn dechnegol bydd y cyfraddau hyn yn deillio o ddefnyddio'r *Dull Uned Arfaethedig* o brisio gyda chyfnod rheoli o flwyddyn.

Os yw profiad y dyfodol yn unol â'r tybiaethau, ac mae proffil aelodaeth y cyflogwr yn parhau'n sefydlog, dylai'r gyfradd hon fod yn sefydlog yn fras dros amser. Pe byddai aelodaeth y gweithwyr yn aeddfedu (e.e. oherwydd llai o recriwtio) byddai'r gyfradd yn cynyddu.

Mae'r Dull Uned Arfaethedig yn cael ei ddisgrifio yn adroddiad yr Actiwari ar y prisiant.

### *3.4.2 Cyflogwyr nad ydynt yn derbyn dechreuwyr newydd*

Ar hyn o bryd, mae un Corff a Ganiateir wedi cau'r Cynllun i aelodau newydd. Fodd bynnag, pe byddai Corff a Ganiateir yn cau'r cynllun i ddechreuwyr newydd disgwylir y byddai hyn yn arwain i oed cyfartalog gweithwyr sy'n aelodau gynyddu dros amser, ac o ganlyniad, gyda phopeth arall yn aros yr un peth, disgwylir y byddai'r gyfradd gwasanaeth yn y dyfodol yn cynyddu wrth i'r aelodaeth heneiddio. Mewn achosion o'r fath byddai'r dull cyllido *Oed a Gyrhaeddir yn cael ei fabwysiadu*. Byddai hyn yn cyfyngu'r graddau o gynnydd mewn cyfraniadau yn y dyfodol drwy dalu cyfraddau uwch ar y dechrau.

Bydd cyfraddau gwasanaeth y dyfodol yn cynnwys costau gweinyddiaeth i'r graddau eu bod yn cael eu talu gan y Gronfa ac yn cynnwys lwfans ar gyfer buddiannau sy'n daladwy wedi marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch.

## 3.5 Addasiadau i Gyflogwyr Unigol

Mae addasiadau i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr unigol yn cael eu gosod drwy gyfrifo cyfraddau cyfraniadau gwasanaeth y dyfodol sy'n benodol i gyflogwyr a chyfrifo lefel gyllido'r cyflogwr. I gyflogwyr unigol, mae effaith gyfunol yr addasiadau a osodir gan actiwari'r Gronfa yn ymwneud â:

- chyfraniadau'r gorffennol o'i gymharu â chost croniad buddiannau;
- gwahanol broffiliau ymrwymiadau y cyflogwyr (e.e. cymysgedd o aelodau yn ôl oed, rhyw, gweithwyr llaw/ddim â llaw);
- effaith unrhyw wahaniaeth yn sail y prisiant ar y gwerth a roddir ar ymrwymiadau'r cyflogwr;
- unrhyw gyfnodau gwasgaru diffyg/gwarged neu gamau cyfraniadau gwahanol;
- y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig mewn tâl pensiynadwy;
- y gwahaniaeth rhwng cynnydd gwirioneddol a thybiedig i daliadau pensiwn a phensiynau sy'n cael eu gohirio;
- y gwahaniaeth rhwng ymddeoliadau gwirioneddol a thybiedig ar sail salwch o statws gweithredol;
- y gwahaniaeth rhwng symiau gwirioneddol a thybiedig o bensiwn yn dod i ben wedi marwolaeth;

- costau ychwanegol o unrhyw ymddeoliadau nad ydynt yn ymwneud â salwch o'i gymharu ag unrhyw daliadau ychwanegol a wneir;

dros y cyfnod rhwng pob prisiant tair blynyddol.

Mae'r enillion gwirioneddol a geir ar y Gronfa rhwng pob prisiant yn cael eu gosod yn gyfatebol ar draws yr holl gyflogwyr. Mae trawsnewid ymrwymiadau rhwng cyflogwyr o fewn y Gronfa yn digwydd yn awtomatig o fewn y broses hon, gyda swm sy'n gyfwerth yn fras â'r arian wrth gefn sydd ei angen ar y sail barhaus yn cael ei gyfnewid rhwng y ddau gyflogwr.

Nid yw actiwari'r Gronfa yn ystyried rhai digwyddiadau penodol gymharol fychan sydd wedi digwydd yn y cyfnod ers y prisiant ffurfiol diwethaf, yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- amseriad gwirioneddol cyfraniadau cyflogwyr o fewn unrhyw flwyddyn ariannol;
- effaith fwy neu lai o ymadawiadau nac a dybiwyd;
- effaith taliad cynnar o unrhyw bensiynau sy'n cael eu gohirio ar sail anallu.

Mae'r effeithiau hyn yn cael eu hysgubo o fewn eitem amrywiol yn y dadansoddiad o warged, sydd wedi'i rannu rhwng y cyflogwyr yn gymesur â'u hymrwymiadau.

### 3.6 Cyfrifiadau Rhannu Asedau i Gyflogwyr Unigol

Mae gofyn i actiwari'r Gronfa rannu asedau'r holl gronfa rhwng y cyflogwyr ym mhob prisiant tair blynyddol gan ddefnyddio'r ffigyrau incwm a gwariant a ddarperir ar gyfer llif arian penodol i bob cyflogwr. Mae'r broses hon yn addasu ar gyfer trosglwyddo ymrwymiadau rhwng cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa, ond mae'n gwneud nifer o dybiaethau syml. Mae'r rhaniad yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio techneg actiwaraidd a enwir yn "dadansoddiad o warged". Mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn golygu y bydd peth gwahaniaeth yn annatod rhwng y cyfrannau asedau a gyfrifir ar gyfer cyflogwyr unigol a'r rheini a fyddai wedi eu cyfrifo pe byddai ganddynt Gronfa unigol iddynt hwy eu hunain. Gellir gwirio rhaniad yr asedau ond nid i safon archwiliad.

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn adnabod y cyfyngiadau yn y broses, ond o ystyried y gost weinyddol ychwanegol o adeiladu diogelwch newydd, ystyria bod agwedd actiwari'r Gronfa yn cyfeirio at y risg o groes-gymhorthdalu cyflogwyr i raddau derbyniol.

## 3.7 Sefydlogrwydd Cyfraniadau Cyflogwyr

### *3.7.1 Cyfnodau Adfer Diffygion*

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn cyfarwyddo'r actiwari i fabwysiadu cyfnodau adfer diffygion penodol i'r holl gyflogwyr wrth gyfrifo eu cyfraniadau.

Mae'r Awdurdod Gweinyddol fel arfer yn targedu adferiad unrhyw ddiffyg dros gyfnod sy'n cymryd i ystyriaeth statws risg y cyflogwyr ac i effaith llai goblygiadau eang i adnoddau. Mae'r prif egwyddorion fel a ganlyn:

| Math o Gyflogwr | Uchafswm y Cyfnod ar Gyfer Adfer Diffygion |
|---|---|
| Cyrff statudol gyda phwerau codi trethi. | cyfnod nad yw'n fwy na 20 mlynedd. |
| Cyrff Cymunedol a Ganiateir gyda gwarantau cyllido. | cyfnod nad yw'n fwy na 20 mlynedd. |
| Colegau Addysg Bellach sy'n Gyrff ar yr Atodlen nid Cyrff a Ganiateir. | cyfnod nad yw'n fwy na 15 mlynedd |
| Cyrff Gwerth Gorau a Ganiateir. | y cyfnod o ddechrau'r cyfraniadau diwygiedig hyd ddiwedd contract y cyflogwr. |
| Cyrff Cymunedol a Ganiateir sydd ar gau i ddechreuwyr newydd. | cyfnod sy'n gyfwerth ag oes gwaith disgwyliedig yn y dyfodol yr aelodau sy'n parhau yn y cynllun gan ganiatáu am adawyr disgwyliedig. |
| Holl fathau eraill o gyflogwr | cyfnod sy'n gyfwerth ag oes gwaith disgwyliedig yn y dyfodol yr aelodau sy'n parhau yn y cynllun. |

Defnyddir yr *uchafswm* cyfnod hwn wrth gyfrifo *isafswm* cyfraniad pob cyflogwr. Gall cyflogwyr ddewis talu cyfraniadau rheolaidd uwch na'r isafswm cyfraddau hyn.

Mae'r cyfnod adfer diffygion yn cychwyn ar ddechrau'r gyfradd cyfraniad diwygiedig (1 Ebrill 2014 ar gyfer prisiad 2011). Byddai'r Awdurdod Gweinyddol fel arfer yn disgwyl i'r un cyfnod gael ei ddefnyddio mewn prisiannau tair blynyddol dilynol, ond byddant yn cadw'r hawl i gynnig cyfnodau gwasgaru gwahanol, er enghraifft i wella sefydlogrwydd cyfraniadau.

Mynegir yr ad-daliad diffyg mewn gwerth arian i'w talu dros y cyfnod perthnasol a delir swm penodedig bob mis.

### *3.7.2 Cyflwyno Cynnydd a Lleihad mewn Cyfraniadau yn Raddol*

Nid yw Cyrff Gwerth Gorau a Ganiateir yn gymwys i gyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol. I gyflogwyr sy'n wynebu cynnydd yn eu cyfraniadau, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o 6 mlynedd, yn ddibynnol ar fodlonrwydd yr Awdurdod Gweinyddol o safbwynt gwarchodaeth y Gronfa. Yn yr un modd, cyflwynir gostyngiadau cyfraniadau dros 3 blynedd.

Bydd cyrff mawr sydd â phwerau i godi trethi yn parhau i dalu ar yr un raddfa gyfraniadau (mynegwyd fel canran cyflogres) a'u graddfa yn 2013/14.
Mae'r actiwari wedi datblygu pedwar mesur allweddol sydd yn cynnwys hanfodion strategaeth y Gronfa, sydd yn cynnwys cyllido a buddsoddi.

- Pwyll - dylai'r Gronfa bod efo disgwyliad rhesymol o gael ei chyllido'n llawn yn y tymor hir;

- Fforddiadwy – faint y gellir cyflogwyr fforddio;

- Stiwardiaeth - dylai'r tybiaethau a defnyddir bod yn gynaliadwy yn y tymor hir, heb orfod defnyddio tybiaethau rhy optimistaidd ynglŷn â'r dyfodol er mwyn cynnal sefyllfa cyllido iach;

- Sefydlogrwydd - na ddylai cyflogwyr gweld symudiadau sylweddol yn eu cyfraniadau o flwyddyn i flwyddyn a bydd hyn yn darparu amgylchedd cyllido mwy sefydlog.

Y brif broblem yw bod y prif amcanion yn gwrthdaro yn aml. Er enghraifft, y ffordd gorau i isafu'r costau tymor hir y cynllun (h.y. cadw cyfraddau cyflogwyr yn fforddiadwy) yw buddsoddi mewn asedau sydd yn rhoi dychweliadau uwch e.e. ecwiti. Er hynny, mae ecwiti yn gyfnewidiol (h.y. mynd i fyny ac i lawr mewn symudiadau eithaf mawr), sydd yn gwrthdaro gyda'r amcan o gadw cyfraniadau yn sefydlog.

Felly mae angen cadw cydbwysedd rhwng risg a dychweliadau, sydd wedi cael ei ystyried wrth ddefnyddio'r Modelu Asedau Ymrwymiadau (Asset Liability Modelling): set o calculation dechnegau a defnyddir gan actiwari y Gronfa, er mwyn modelu amrediad o lefelau hyfywedd dyfodol dichonol a chyfraddau cyfraniadau.

Mae'r Actiwari wedi modelu effaith y pedwar maes allweddol, er mwyn gosod dull sefydlogrwydd. Mae'r modelu wedi dangos bod cadw'r strategaeth buddsoddi bresennol, ynghyd a chyrff gyda phwerau codi trethi yn parhau i dalu eu cyfraniadau 2013/14 (a dynodir fel canran o'r gyflogres), yn mantoli'r amcanion uchod yn briodol. Yn benodol, mae'r dull sefydlogrwydd a mabwysiadir ar hyn o bryd yn cwrdd â'r angen am sefydlogrwydd heb beryglu amcanion stiwardiaeth bwyllog y Gronfa gan yr Awdurdod Gweinyddol.

Er bod y mecanwaith sefydlogrwydd presennol i'w aros mewn lle tan 2017, dylid nodi bydd angen ei adolygu yn dilyn y prisiad 2016.

### 3.7.3 *Effaith Dewis Gwasgaru'n Hirach neu Gyflwyno'n Raddol*

Tybir y bydd cyflogwyr sydd â chaniatâd ac sy'n dewis defnyddio cyfnod adfer diffygion hirach neu yn cyflwyno newidiadau i gyfraniadau yn raddol, yn colli mwy o'u henillion buddsoddi ar y diffyg drwy ddewis gohirio'r ad-daliad. O ganlyniad, bydd gohirio talu cyfraniadau yn arwain at gyfraniadau uwch yn yr hir dymor.

Ffordd bynnag mae unrhyw addasiad yn cael ei fynegi i wahanol gyflogwyr, yr egwyddor drechol yw y bydd gwerth gostyngedig addasiad y cyfraniad a fabwysiadir ar gyfer pob cyflogwr yn gyfwerth â diffyg y cyflogwr.

### 3.7.4 *Cyfraniadau Cydrannol*

#### 3.7.4.1 *Cyflogwyr Llai*

Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi caniatáu i gyflogwyr llai [rhai tebyg] gyfuno eu cyfraniadau fel ffordd o rannu profiadau a llyfnhau effeithiau drud ond anarferol megis ymddeol ar sail afiechyd neu farwolaethau tra mewn gwasanaeth. Ar gyfer prisiad 2013, rhoddwyd y gorau i'r cyfuno hyn a bydd pob cyflogwr yn derbyn ei raddfa cyfraniadau unigol.

Bydd angen i gyflogwyr llai oedd yn rhan o'r cyfuno hwn yn ystod prisiad 2010 a chyflogwyr llai sydd wedi cau'r gronfa i aelodau newydd fod ag yswiriant ymddeol ar sail afiechyd. Bydd y Gronfa Bensiwn yn trefnu hyn a bydd cost yr yswiriant yn cael ei ddidynnu o gyfraniadau gwasanaeth y cyflogwyr yn y dyfodol er mwyn talu am yr yswiriant.

#### 3.7.4.2 *Cydrannau Cyfrannu Eraill*

Mae ysgolion hefyd wedi'u cydrannu gyda'u Cyngor cyllido.

Mae'r cyflogwyr hynny sydd wedi'u cydrannu wedi'u hadnabod yn **Atodiad A.**

## 3.8 Cyrff a Ganiateir yn peidio

Er gwaethaf darpariaethau'r Cytundeb Derbyn, gall yr Awdurdod Gweinyddol yn ystyried unrhyw un o'r ganlynol fel sbardun am ddarfyddiad cytundeb derbyn gydag unrhyw gorff:

- Aelod gweithredol olaf yn darfod cyfranogi yn y Gronfa;
- Methdaliadau, dirwyn i ben neu ddiddymiad y Corff Gweinyddol;
- Unrhyw doriad o'i goblygiadau o dan y Cytundeb gan y Corff a Ganiateir y maent wedi methu gwella i fodlonrwydd y Gronfa;

- Methiant gan y Corff a Ganiateir i dalu symiau sydd yn ddyledus i'r Gronfa o fewn y cyfnod gofynnol gan y Gronfa; neu

- Methiant y Corff a Ganiateir i adnewyddu neu addasu lefel y bond neu indemniad, neu i gadarnhau gwarantwr arall addas, yn unol ag ymofyn gan y Gronfa.

  Os yw cytundeb derbyn Corff a Ganiateir yn cael ei derfynu, mae'r Awdurdod Gweinyddol yn cyfarwyddo actiwari'r Gronfa i wneud prisiant arbennig i bennu a oes yna unrhyw ddiffyg neu warged. Os oes diffyg, disgwylir taliad llawn gan y Corff a Ganiateir fel arfer; os oes gwarged dylid nodir nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn caniatáu ad-daliad i'r Corff a Ganiateir.

Ar gyfer Cyrff a Ganiateir nad ydynt wedi trosglwyddo ar eu cyfranogiad yn cael eu terfynu yn wirfoddol ei hunan neu gan y Gronfa, neu fod digwyddiad terfynu wedi cael ei sbarduno, rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol geisio amddiffyn buddion cyflogwyr parhaus eraill. Bydd gofyn i'r actiwari fabwysiadu tybiaethau prisiant a fydd, i raddau sy'n rhesymol ymarferol, yn amddiffyn y cyflogwyr eraill rhag y tebygolrwydd i unrhyw golled materol godi yn y dyfodol.

a) Ble mae gwarantwr ar gyfer diffygion yn y dyfodol a chyfraniadau, defnyddir sail prisiant parhaus i gyfrifo'r prisiad darfyddiad fel arfer;

b) Ar yn ail, mae'n bosibl y gellir trosglwyddo unrhyw ymrwymiadau ac asedau yr Corff a Ganiateir blaenorol i'r gwarantwr heb orfod crisialu unrhyw ddiffyg. Gellir defnyddio'r dull hwn pan nad yw'r cyflogwr yn gallu talu'r cyfraniadau dyledus o fod hyn o fewn termau'r warant;

c) Os nad yw'r gwarantwr yn bodoli, er mwyn gwarchod cyflogwyr eraill yn y Gronfa, fel arfer cyfrifir ymrywmiadau a'r diffyg darfyddiad wrth ddefnyddio "sail darfod giltiau" sydd yn fwy pwyllog na'r sail barhaus. Nad yw hyn yn cynnwys unrhyw elfen ar gyfer perfformiad buddsoddiadau yn y dyfodol yn uwch na chynnyrch giltiau, ac yn cynnwys lwfans ychwanegol ar gyfer gwelliannau mewn disgwyliadau byw yn y dyfodol. Gellir hyn arwain at ddyledion sylweddol darfyddiad hanfodol.

   O dan (a) a (b), byddai unrhyw ddiffyg ariannol yn cael ei godi fel un daliad lwmp-swm ar y Corff a Ganiateir sy'n gadael. Os nad yw hyn yn bosib bydd y Gronfa yn edrych ar unrhyw indemniad neu warant mewn lle ar gyfer y cyflogwr.

   Os nad yw'r Gronfa yn gallu adennill y taliad gofynnol yn llawn, mae'r symiau sydd heb eu talu yn cael eu rhannu dros yr holl gyflogwyr eraill yn y Gronfa. Gellir hyn golygu adolygiad yn syth o'r Tystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau sydd yn effeithio cyflogwyr eraill yn y Gronfa, neu gael ei adlewyrchu mewn cyfraddau cyflogwyr a osodir yn y prisiad ffurfiol nesaf yn dilyn dyddiad y terfyniad.

## 3.9 Costau Ymddeoliadau Cynnar

### *3.9.1 Ymddeoliadau nad ydynt yn ymwneud â salwch*

Nid yw sail gyllido'r actiwari yn cymryd ymddeoliad cynamserol i ystyriaeth ac eithrio ar sail salwch. Mae gofyn i gyflogwyr dalu cyfraniadau ychwanegol pan fo gweithiwr yn ymddeol cyn cyrraedd yr oed y mae'r prisiant yn tybio y bydd y buddiannau yn daladwy.

Tybir bod buddiannau aelodau ar oed ymddeol yn daladwy o'r oedran cynharaf y gallai'r gweithiwr ymddeol heb achosi gostyngiad i'w fuddiannau a heb orfod cael caniatâd ei gyflogwr i ymddeol.

Mae costau ychwanegol ymddeoliad cynamserol wedi'u cyfrifo drwy gyfeirio at yr oedrannau hyn.

# 4. Cysylltiadau â Strategaeth Fuddsoddi

Mae cyllido a strategaeth fuddsoddi yn annatod yn gysylltiedig. Mae'r strategaeth fuddsoddi wedi'i gosod gan yr Awdurdod Gweinyddol, wedi ymgynghoriad â'r cyflogwyr ac wedi derbyn cyngor ar fuddsoddi.

## 4.1 Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r strategaeth fuddsoddi sy'n cael ei dilyn ar hyn o bryd wedi'i disgrifio yn Natganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Gronfa.

Mae'r strategaeth fuddsoddi wedi'i gosod am y tymor hir, ond mae'n cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd, fel arfer bob tair blynedd, i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol i broffil ymrwymiadau'r Gronfa. Mae'r Awdurdod Gweinyddol wedi mabwysiadu meincnod sy'n gosod y gyfran o asedau i'w buddsoddi mewn dosbarthiadau asedau allweddol megis ecwiti, bondiau ac eiddo. Ar 31 Mawrth 2013, roedd dosbarthiad asedau'r gronfa fel a ganlyn:

| **Dosbarthiad Ased** | **Meincnod %** | **Gwir %** |
|---|---|---|
| Ecwiti | 72.5 | 76.0 |
| Eiddo | 10.0 | 8.9 |
| Bondiau Dychweliad Absoliwt | 15.0 | 13.3 |
| Is-adeiladwaith | 2.5 | 0.3 |
| Arian Parod | 0.0 | 1.5 |
| **CYFANSWM** | **100.0** | **100.0** |

Y strategaeth fuddsoddi gyda'r risg lleiaf – ond nid o anghenraid yr un mwyaf cost-effeithiol yn yr hir dymor – fyddai buddsoddi 100% mewn bondiau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â mynegai.

Mae meincnod y Gronfa yn cynnwys daliad sylweddol mewn ecwiti wrth ddilyn enillion uwch yn yr hir dymor nac o fondiau llog sefydlog. Mae strategaeth yr Awdurdod Gweinyddol yn cydnabod ymrwymiadau cymharol anaeddfed y Gronfa a natur ddiogel cyfamodau mwyafrif o gyflogwyr.

Mae'r un strategaeth fuddsoddi yn cael ei dilyn ar hyn o bryd ar gyfer yr holl gyflogwyr. Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod Gweinyddol y cyfleuster i weithredu gwahanol strategaethau buddsoddi ar gyfer gwahanol gyflogwyr.

## 4.2 Cysondeb gyda Sail Gyllido

Mae'r polisi cyllido presennol, i bwrpas gosod gwerth ar yr ymrwymiadau ym mhrisiad cyllido tair blynyddol ar 31 Mawrth 2013 a gosod cyfradd y cyfraniadau sy'n effeithiol o'r 1 Ebrill 2014, yn tybio bod yr enillion o fuddsoddiadau yn y dyfodol a enillir gan y Gronfa yn yr hir dymor yn mynd i fod 1.7**%** yn uwch na'r cynnyrch tymor hir ar bondiau Llywodraeth y DU ar ddyddiad y prisiad. Yn y cyd-destun yma, mae'r hir dymor yn golygu 20 i 30 mlynedd neu fwy. Mae tybiaeth well perfformiad wedi cael ei godi o 1.4% i 1.7% y flwyddyn ar 31 Mawrth 2013. Mae'r codiad yn adnabod cyflwr economaidd anarferol sydd wedi arwain at gynnyrch bondiau yn cymharol isel. Mae'r Gronfa yn credu mater dros dro yw'r cyflwr hwn. Adolygir tybiaethau gwell perfformiad asedau eto ym mhrisiad 2016.

Ym marn actiwari'r Gronfa, mae'r polisi cyllido cyfredol yn gyson gyda strategaeth buddsoddi gyfredol y Gronfa, mae tybiaeth o orberfformiad ased yn dderbyniol i bwrpas y prisiad ac yn gyson gyda'r angen i gymryd "barn hir dymor pwyllog" o gyllido'r ymrwymiadau (gweler paragraff 3.1).

Fodd bynnag, yn y tymor byr - megis yr asesiadau bob tair blynedd mewn prisiannau ffurfiol - mae sgôp ar gyfer anwadalwyd sylweddol ac mae yna gyfle materol y byddai'r enillion o asedau yn brin o'r targed hwn, yn y tymor byr a'r tymor canolig hyd yn oed. Bydd y mesurau sefydlogrwydd a ddisgrifir yn Adran 3 yn lleihau, ond nid yn cael gwared ar yr effaith ar gyfraniadau cyflogwyr. Nid oes gan y Gronfa arian wrth gefn i'w gwarchod rhag anwadalrwydd buddsoddiadau ecwiti.

## 4.3 Cydbwysedd rhwng risg a gwobrwyo

Cyn gweithredu ei strategaeth fuddsoddi gyfredol, fe ystyriodd yr Awdurdod Gweinyddol y cydbwysedd rhwng risg a gwobrwyo drwy newid lefel buddsoddiad mewn dosbarthiadau ased sydd â photensial o enillion uwch, ond mwy anwadal, fel ecwiti. Hysbyswyd y broses hon gan y defnydd o dechnegau Atebolrwydd-Ased i fodelu'r amrediad o lefelau diddyledrwydd potensial y dyfodol a chyfraddau cyfraniadau.

## 4.4 Monitro'r Sefyllfa Cyllido Rhwng Prisiannau

Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro perfformiad buddsoddi o'i gymharu â'r cynnydd mewn ymrwymiadau drwy ddulliau mesur enillion buddsoddi o'i gymharu â'r enillion ar bortffolio risg lleiaf o fondiau cysylltiedig â mynegai.

# 5. Risg a Rheolaeth Allweddol

## 5.1 Mathau o Risg

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol raglen rheoli risg gweithredol ar waith. Mae'r mesuriadau sydd gan yr Awdurdod Gweinyddol ar waith i reoli risg allweddol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:

- Buddsoddiad;
- Cyflogwr;
- Hylifedd / aeddfedrwydd;
- Ymrwymiadau;
- Rheoleiddio a chydymffurfio.

## 5.2 Risg Buddsoddi

| Number | Risk | Summary of Control Mechanisms |
|---|---|---|
| I1 | Asedion y Gronfa yn methu â chyflwyno enillion yn unol ag enillion disgwyliedig<br><br>Rheolwr buddsoddi gweithredol yn tanberfformio o'i gymharu â'r meincnod. | *Rhagdybio enillion hir dymor ar sail gymharol bwyllog yn unig er mwyn lleihau'r risg o danberfformio.*<br><br>*Dadansoddi cynnydd mewn prisiannau tair blynyddol i'r holl gyflogwyr.*<br><br>*Monitro buddsoddiad tymor byr (chwarterol) drwy ddadansoddi perfformiad y farchnad a'r rheolwyr gweithredol o'i gymharu â'u meincnod. Mae hwn yn awr yn cael ei atodi gyda dadansoddiad o adenillion absoliwt yn erbyn y rheini sy'n tanategu'r prisiad.*<br><br>*Mae hyn yn rhoi rhybudd cynnar o gynnydd mewn cyfraniadau sydd ar eu ffordd. Yn y tymor byr, lleihawyd anwadalrwydd gan fesuriadau sefydlogrwydd ar gyfraniadau. Fodd bynnag, os yw tanberfformiad yn parhau dros gyfnodau o dros 5 mlynedd byddai cyfraniadau yn cynyddu'n fwy.would rise more* |
| I2 | Risg systematig gyda'r posibilrwydd o anweddolrwydd y farchnad | *Mae gan y Gronfa strategaeth fuddsoddi ac mae'r risg wedi'i lledaenu dros sawl categori asedau.* |

| | | |
|---|---|---|
| | ariannol ar yr un pryd. | |
| I3 | Strategaeth fuddsoddi hir dymor amhriodol. | *Gosod meincnod sy'n benodol i'r Gronfa, a hysbysir gan fodelu Atebolrwydd-Ased o ymrwymiadau.*<br><br>*Ystyried mesur perfformiad a gosod targedau'r rheolwyr o'i gymharu â tharged seiliedig ar fondiau, enillion absoliwt neu Bortffolio Meincnod Atebolrwydd a ddim o'i gymharu â mynegai.* |
| I4 | Gwrthbarti yn methu | *Mae'r Gronfa yn defnyddio gwarchodwyr annibynnol i gadw'r asedau buddsoddi yn ddiogel er mwyn gwarchod yn erbyn methiant unrhyw reolwr buddsoddi.*<br><br>*Mae balansau arian parod yn cael eu buddsoddi yn unol â Datganiad Strategaeth Reolaeth Trysorlys y Gronfa Bensiwn sy'n rhagnodi maint a hyd yr adneuon gyda'r gwrthbartion a ganiateir.* |
| I5 | Risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag asedau a dosbarthiadau o asedau. | *Mae gan y Gronfa bortffolio o fuddsoddiadau dros wahanol ddosbarthiadau o asedau, gwledydd, arian cyfred a stociau unigol i liniaru'r risgiau hyn.* |

## 5.3 Risg Cyflogwr

| Number | Risk | Summary of Control Mechanisms |
|---|---|---|
| E1 | Y gymysgedd o gyflogwyr yn newid yn sylweddol. | *Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro'r newidiadau yn yr aelodaeth bob blwyddyn.* |
| E2 | Effaith cynnydd posibl mewn cyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyflwyniad gwasanaeth ac ar gyrff a ganiateir/gyrff ar yr atodlen. | *Lleddfu'r effaith drwy wasgaru diffygion a chyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau yn raddol.* |
| E3 | Patrymau ymddeoliadau cynnar yn dirywio. | *Codir cost cyfalaf ychwanegol o ymddeoliadau nad ydynt yn ymwneud â salwch, ar gyflogwyr yn dilyn pob penderfyniad unigol.* |
| E4 | 1) Awdurdod Gweinyddol ddim yn ymwybodol o | *Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro* |

| | | |
|---|---|---|
| | newidiadau strwythurol yn aelodaeth cyflogwr (e.e. gostyngiad mawr mewn aelodau sy'n weithwyr, nifer fawr o ymddeoliadau).<br><br>2) Awdurdod Gweinyddol ddim yn cael gwybod am gyflogwr yn cau i ddechreuwyr newydd. | *symudiadau aelodaeth yn flynyddol.*<br><br>*Mae'n bosibl y rhoddir cyfarwyddiadau i'r Actiwari i ystyried adolygu'r dystysgrif Cyfraddau ac Amrywiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr (o dan Reoliad 78) rhwng prisiannau tair blynyddol.*<br><br>*Mynegir cyfraniadau diffyg fel symiau ariannol gweler Atodiad A.* |
| E5 | Awdurdod Gweinyddol yn methu â chomisiynu Actiwari'r Gronfa i wneud prisiant terfynol ar gyfer Corff a Ganiateir sy'n gadael ac yn colli'r cyfle i alw'r ddyled yn ôl. | *Yn ogystal â'r Awdurdod Gweinyddol yn monitro symudiadau aelodaeth yn flynyddol, byddai'n gofyn i gyflogwyr gyda chontractwyr Gwerth Gorau roi gwybod iddo am newidiadau yn y dyfodol.*<br><br>*Byddai hefyd yn gweithredu system ddyddiadur i roi gwybod iddo am derfyniad buan Cytundebau Derbyn Gwerth Gorau.* |
| E6 | Cyflogwr yn peidio â bodoli gyda chyllido neu fond annigonol. | *Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn credu y byddai fel arfer yn rhy hwyr i gyfeirio at y sefyllfa pe byddai'n cael ei adael tan yr amser gadael. Mae'r risg yn cael ei leddfu gan:*<br><br>• *Geisio gwarant cyllido gan gyflogwr arall o'r cynllun, neu gorff allanol, ble bo hynny'n bosibl.*<br>• *Roi gwybod i'r cyflogwr arfaethedig am ei ymrwymiadau a'i annog i gymryd cyngor actiwaraidd annibynnol.*<br>• *Gwirio cyflogwyr arfaethedig cyn derbyn*<br>• *Gosod cyfyngiad isaf o 20 o weithwyr ar gyfer cyflogwyr arfaethedig.*<br>• *Bydd yr Awdurdod Gweinyddol, ble y caniateir o dan y rheoliadau, yn ystyried gofyn am fond i warchod y cynllun rhag y gost ychwanegol o ymddeoliadau cynnar neu ddiswyddiadau pe byddai'r cyflogwr yn methu.* |

## 5.4 Risg Hylifedd / Aeddfedrwydd

| Number | Risk | Summary of Control Mechanisms |
|---|---|---|
| M1 | Dim digon o gyllid ar gael i dalu'r ymrwymiadau sy'n ddyledus | *Mae gan y Gronfa lif arian positif ar hyn o bryd ac mae'n monitro'r sefyllfa yn rheolaidd i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i dalu pensiynau a chostau eraill.* |
| M2 | Newidiadau i'r cynllun sy'n effeithio ar y proffil aeddfedrwydd a chyfraddau dadgofrestru yn y dyfodol. | *Mae prisiad yr actwari yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newidiadau i'r cynllun sydd ar y gweill.*<br><br>*Bydd gwir newidiadau yn y proffiliau aeddfedrwydd a'r cyfraddau dadgofrestru yn cael eu monitro yn erbyn y tybiaethau.* |
| M3 | Goblygiadau'r toriadau fydd yn arwain at:<br>• lai o aelodaeth,<br>• cyfraniadau is,<br>• mwy o ymddeoliadau cynnar | *Bydd y Gronfa'n casglu'r diffyg mewn cyfraniadau cyflogwyr fel swm o arian parod, yn hytrach na fel canran o gyflog o 1 Ebrill 2014 ymlaen.*<br><br>*Mae'r Gronfa'n monitro cyfraniadau'r cyflogwyr am newidiadau mawr ac yn asesu effeithiau hynny ac unrhyw ostyngiadau yn barhaus.*<br><br>*Bydd cyflogwyr yn gyfrifol am dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymddeoliadau cynnar.* |

## 5.5 Risg ymrwymiadau

| Number | Risk | Summary of Control Mechanisms |
|---|---|---|
| L1 | Gostyngiad mewn enillion di-risg ar fondiau'r Llywodraeth, yn arwain at gynnydd yn y gwerth a roddir ar ymrwymiadau. | *Peth buddsoddiad mewn bondiau yn helpu i leddfu'r risg hwn.* |
| L2 | Chwyddiant tâl a phrisiau yn sylweddol fwy na'r hyn a ragwelwyd. | *Mae ffocws y broses prisiant actiwaraidd ar enillion gwirioneddol asedau, prisiau net a chynnydd tâl. Mae peth buddsoddiad mewn bondiau hefyd yn helpu i leddfu'r risg hwn.*<br><br>*Mae cyflogwyr yn talu am eu dyfarniadau cyflog eu hunain.* |

| | | |
|---|---|---|
| L3 | Pensiynwyr yn byw'n hirach. | *Gosod rhagdybiaethau marwolaeth gyda pheth ystyriaeth i gynnydd mewn disgwyliad oes yn y dyfodol.*<br><br>*Yn y Prisiad diweddaraf ar 31 Mawrth 2010, darparwyd dadansoddiad o hirhoedledd cyfredol penodol ar gyfer Gwynedd gan "Club Vita". Yn ychwanegol mae'r Actiwari wedi gwneud lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r lwfans a wnaed ym mhrisiad Mawrth 2010 yn uwch na'r hyn wnaed yn y prisiad olaf yn ôl yn 2007. Bydd yr Actiwari yn parhau i fonitro tystiolaeth o welliannau o Club Vita a ffynonellau eraill ac yn ein cynghori yn y prisiad nesaf (2013) faint mwy o lwfans fydd ei angen ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.* |

## 5.6 Risg rheoleiddio a chydymffurfio

| Number | Risk | Summary of Control Mechanisms |
|---|---|---|
| R1 | Newidiadau i reoliadau, e.e. cyflwyniad y cynlyn newydd yn 2014 | *Mae'r Awdurdod Gweinyddol yn effro i'r potensial o greu ymrwymiadau ychwanegol ac anawsterau gweinyddol i gyflogwyr a'i hun.*<br><br>*Mae'n ystyried yr holl bapurau ymgynghorol a gyhoeddir gan yr ODPM ac yn rhoi sylwadau ble bo hynny'n briodol.*<br><br>*Bydd yr Awdurdod Gweinyddol yn ymgynghori â chyflogwyr ble y mae'n ystyried y bydd hyn yn briodol.* |
| R2 | Newidiadau i ofynion pensiwn gwladol a/neu reolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) e.e. rheolau croniad pensiynau blynyddol at ddibenion treth | |

## Atodiad A – Cyfraniadau Cyflogwyr, Cyfnodau Gwasgaru a Chyflwyno'n Raddol

**Yn dilyn prisiant 2013, mae'r isafswm cyfraniadau cyflogwr a ddangosir yn y dystysgrif Cyfraddau ac Amrywiadau sydd ynghlwm ag adroddiad prisiant 2013 yn seiliedig ar y cyfnodau adfer diffyg a'r cyfnodau cyflwyno'r raddol a ddangosir yn y tabl isod. Mae'r tabl hefyd yn dangos yr amrywiadau unigol o dan Reoliad 77(6) i gyfraniadau pob cyflogwr o'r 'Gyfradd Cyfraniad Cyffredin'.**

Mae rhai cyflogwyr wedi nodi eu bod nhw'n ystyried dyfodol i'w aelodaeth o'r Gronfa Bensiwn. Bydd angen newid y FSS os yw cyflogwyr unigol yn penderfynu newid neu derfynu eu haelodaeth.

| COD | Enw'r Cyflogwr neu Bwll | Uchafswm Cyfnod Adennill Diffyg Arfaethedig (mewn blynyddoedd) | Cyfnod Gwasgaru (mewn blynyddoedd) | Cyfraddau a Symiau Cyfraniadau am y flwyddyn sy'n gorffen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | CGD 31.03.15 % | Diffyg 31.03.15 £'000 | CGD 31.03.16 % | Diffyg 31.03.16 £'000 | CGD 31.03.17 % | Diffyg 31.03.17 £'000 |
| | **Prif Gyrff ar yr Atodlen** | | | | | | | | |
| 100 | Gwynedd | 20 | S | 18.3 | 2,985 | 18.3 | 3,015 | 18.3 | 3,045 |
| 200 | Ynys Môn | 20 | S | 18.6 | 1,269 | 18.6 | 1,282 | 18.6 | 1,294 |
| Pool | Pwl Conwy | | | | | | | | |
| 300 | - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 20 | S | 19.1 | 1,320 | 19.1 | 1,334 | 19.1 | 1,347 |
| 55 | - *Ysgol Emrys ap Iwan* | 20 | S | 19.1 | | 19.1 | | 19.1 | |
| 56 | - *Ysgol Uwchradd Eirias* | 20 | S | 19.1 | | 19.1 | | 19.1 | |
| 57 | - *Ysgol Bryn Elian* | 20 | S | 19.1 | | 19.1 | | 19.1 | |
| 58 | - *Ysgol Pen y Bryn* | 20 | S | 19.1 | | 19.1 | | 19.1 | |
| | **Prif Gyrff a Ganiateir** | | | | | | | | |
| 37 | Careers Wales North West | GOG | 6 | 17.2 | 43 | 19.4 | 48 | 19.8 | 50 |
| 38 | Cwmni Cynnal | GOG | 0 | 17.0 | 0 | 17.0 | 0 | 17.0 | 0 |
| 43 | Parc Cenedlaethol Eryri | 20 | S | 19.5 | 70 | 19.5 | 70 | 19.5 | 71 |
| 76 | Cartrefi Conwy | GOG | 0 | 17.0 | 0 | 17.0 | 0 | 17.0 | 0 |
| 77 | Cartrefi Cymunedol Gwynedd | GOG | | 16.4 | 0 | 16.4 | 0 | 16.4 | 0 |
| 78 | Grŵp Llandrillo Menai | 15 | 6 | 18.8 | 118 | 18.8 | 159 | 18.8 | 200 |
| 81 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 20 | S | 16.3 | 827 | 16.3 | 835 | 16.3 | 844 |
| | **Cyrff Eraill ar yr Atodlen** | | | | | | | | |
| 13 | C.T. Caernarfon | 20 | 3 | 15.4 | 1.1 | 15.4 | 0.7 | 15.4 | 0.2 |
| 14 | C.T. Porthaethwy | 20 | 6 | 20.7 | 0.2 | 20.7 | 0.4 | 20.7 | 0.5 |
| 16 | C.D. Bangor | 20 | 6 | 19.3 | 1.8 | 19.3 | 2.6 | 19.3 | 3.3 |
| 17 | C.T. Llangefni | 20 | 6 | 21.6 | 0 | 21.6 | 0 | 21.6 | 0 |
| 22 | C.T. Biwmares | 20 | 6 | 23.0 | 0 | 24.8 | 0 | 26.6 | 0 |
| 27 | C.T Caergybi | 20 | 6 | 20.2 | 1.3 | 20.2 | 1.5 | 20.2 | 1.6 |
| 28 | C.T Llandudno | 20 | 3 | 16.3 | 1.3 | 16.3 | 0.9 | 16.3 | 0.6 |
| 66 | C.T. Tywyn | 20 | 6 | 22.8 | 0 | 24.5 | 0 | 26.1 | 0 |
| 68 | C.C Llanllyfni | 20 | 6 | 21.7 | 0 | 22.3 | 0 | 22.8 | 0 |

| | Uchafswm Cyfnod Adennill Diffyg Arfaethedig | Cyfnod Gwasgaru | Cyfraddau Cyfraniadau am y flwyddyn sy'n gorffen | Cyfraddau a Symiau Cyfraniadau am y flwyddyn sy'n gorffen | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| COD | (mewn blynyddoedd) | (mewn blynyddoedd) | (mewn blynyddoedd) | CGD 31.03.15 % | Diffyg 31.03.15 £'000 | CGD 31.03.16 % | Diffyg 31.03.16 £'000 | CGD 31.03.17 % | Diffyg 31.03.17 £'000 |
| 70 | C. T. Towyn a Bae Cinmel | 20 | 3 | 14.2 | 1.8 | 14.2 | 1.0 | 14.2 | 0.2 |
| 72 | C. T. Abergele T.C. | 20 | 6 | 19.5 | 0.5 | 19.5 | 0.6 | 19.5 | 0.6 |
| 73 | C.T Bae Colwyn. | 20 | 3 | 17.4 | 1.7 | 17.4 | 1.3 | 17.4 | 0.9 |
| 74 | C.T. Blaenau Ffestiniog | 20 | 6 | 22.2 | 0 | 23.2% | 0 | 24.2% | 0 |
| | **Cyrff Eraill a Ganiateir** | | | | | | | | |
| 11 | Cymdeithas Gog Cymru i'r Deillion | GOG | 6 | 18.3 | 6.4 | 18.3 | 8.2 | 18.3 | 10.1 |
| 25 | Cydbwyllgor Claddu Caergybi | GOG | 6 | 24.1 | 0 | 25.0 | 0.5 | 25.0 | 1.3 |
| 34 | Coleg Harlech | | 6 | 19.1 | 21.3 | 19.1 | 30.3 | 19.1 | 38.9 |
| 41 | Cwmni'r Bran Wen | GOG | 3 | 13.7 | 6.9 | 13.7 | 5.4 | 13.7 | 3.8 |
| 61 | Gwasanaeth Gwirfoddol Conwy | GOG | 6 | 20.8 | 3.5 | 20.8 | 5.1 | 20.8 | 7.1 |
| 62 | Medrwn Môn | GOG | 6 | 19.7 | 6.3 | 19.7 | 7.9 | 19.7 | 9.6 |
| 63 | Mantell Gwynedd | GOG | 0 | 22.6 | 0 | 22.6 | 0 | 22.6 | 0 |
| 64 | Canolfan Cynghori Ynys Môn | GOG | 6 | 18.0 | 3.1 | 18.0 | 4.3 | 18.0 | 5.5 |
| 67 | Menter Môn | GOG | 3 | 15.9 | 39.1 | 15.9 | 31.9 | 15.9 | 25.4 |
| 69 | Canolfan Cynghori Conwy | GOG | 6 | 22.5 | 0.5 | 22.5 | 1.3 | 22.5 | 2.1 |
| 71 | CAIS | GOG | 6 | 23.9 | 0 | 24.1 | 6.7 | 24.1 | 13.7 |
| 80 | Jewsons Ltd | GOG | 0 | 18.0 | 0 | 18.0 | 0 | 18.0 | 0 |

*OGD = Oes Gwaith Dyfodol
*S = Corff statudol sydd yn codi trethi – dim codiad mewn cyfradd cyfraniadau
*CGD = Cyfraniad Gwasanaeth y Dyfodol

## Atodiad B – Cyfrifoldebau Partïon Allweddol

***Dylai'r Awdurdod Gweinyddol:-***

- gweithredu cronfa bensiwn yn unol â'r Rheoliadau LGPS;
- rheoli unrhyw gwrthdaro diddordeb dichonol sydd yn codi o'i rôl ddeuol fel Awdurdod Gweinyddol a chyflogwr y Gronfa;
- gasglu cyfraniadau'r cyflogwyr a'r gweithwyr, incwm buddsoddi a symiau eraill yn ddyledus i'r Gronfa;
- sicrhau bod arian parod ar gael i ddiwallu'r taliadau budd-dal pan fyddant angen eu talu;
- talu'r budd-daliadau a hawliau perthnasol sydd yn ddyledus;
- fuddsoddi arian dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi'r Gronfa a'r rheoliadau LGPS;
- cyfathrebu'n briodol gyda'r cyflogwyr er mwyn iddynt ddeall eu rhwymedigaethau i'r Gronfa;
- cymryd camau er mwyn diogelu'r gronfa rhag y canlyniadau o ddiffygdalu gan gyflogwr;
- rheoli'r broses prisiant mewn ymgynghoriad ag actiwari'r gronfa;
- baratoi a chynnal FSS a SIP, wedi ymgynghoriad; a
- monitro holl agweddau perfformiad a chyllido'r gronfa a diwygio'r FSS/SoIP.

***Dylai'r Cyflogwr Unigol:-***

- dynnu cyfraniadau o dâl y gweithwyr yn gywir;
- dalu'r holl gyfraniadau, yn cynnwys eu cyfraniadau eu hunain fel y pennir gan yr actiwari, ar amser ac erbyn y dyddiad y maent angen eu talu;
- datblygu polisi a defnyddio disgresiwn fel y caniateir o fewn y fframwaith rheoliadol;
- wneud cyfraniadau ychwanegol yn unol â threfniadau a gytunir arnynt yn nhermau, er enghraifft, ychwanegiad buddiannau'r cynllun, straen ymddeoliad cynnar; a
- roi gwybod i'r awdurdodau gweinyddol yn fuan am yr holl newidiadau i'r aelodaeth, neu, fel y cynigir, sy'n effeithio ar gyllido yn y dyfodol.

***Dylai actiwari'r Gronfa:-***

- baratoi prisiannau yn cynnwys gosod cyfraddau cyfraniad y cyflogwr. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar dybiaethau gyda'r Awdurdod Gweinyddol a chadw'r FSS a'r Rheoliadau CPLlL mewn cof, a thargedu hyfywedd bob cyflogwr yn briodol;

- darparu cyngor ynglyn a chyflogwyr newydd yn y Gronfa, gan gynnwys y lefel a'r math o fondau neu dulliau eraill warantau (a monitro'r rheiny);

- pharatoi cyngor a chyfrifiadau mewn perthynas â'r trosglwyddiadau crynswth a materion buddion unigol perthnasol;

- cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu i asesu p'un a oes angen adolygu cyfraniadau'r cyflogwr rhwng prisiadau ffurfiol, pan mae'r amgylchiadau yn awgrymu byddai hyn yn angenrheidiol;

- rhoi cyngor ar derfyniadau cyfranogiad Cyrff a Ganiateir yn y Gronfa; a

- adlewyrchu arweiniad a gofynion actiwaraidd proffesiynol yn llawn yn y cyngor a rhoddir i'r Awdurdod Gweinyddol;

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **17 MAWRTH 2014** |
| **PWRPAS** | **GOFYN I'R PWYLLGOR PENSIYNAU FABWYSIADU'R STRATEGAETHAU** |
| **TEITL** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2014/15** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |

## 1. STRATEGAETH FUDDSODDI Y GRONFA BENSIWN

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2014/15, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (sy'n amgaeedig fel Atodiad A). Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2014/15 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 6 Mawrth 2014.

## 2. CANLLAWIAU CIPFA

Bydd y Gronfa yn rhoi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes".

## 3. LLIF ARIAN Y GRONFA BENSIWN

Mae mewnlif net o arian i'r Gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol â chostau. Pan fydd lefel yr arian dros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi y Gronfa. Fel rheol bydd tua £5 miliwn yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y Gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod dros £20 miliwn.

## 4. CRONNI ER MWYN UCHAFU DYCHWELIADAU

Ar hyn o bryd mae holl arian dros ben y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian dros ben y gronfa bensiwn gael ei gronni efo balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg fod cronni yn caniatáu manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc, ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor. Mae'r adroddiad a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2014 yn cynnwys cytundeb i barhau'r trefniant cronni gyda'r Gronfa Bensiwn yn dilyn unrhyw gais gan y Pwyllgor Pensiynau.

## 5. GWRTHBARTION

Y gwrthbartion sydd yn cwrdd a'r gofynion buddsoddi ar hyn o bryd **(Atodiad B)** wedi cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Mae uchafswm cyfnod y benthyciad ar gyfer yr holl sefydliadau wedi'i godi o 1 flwyddyn i fyny i 2 flynedd er mwyn adlewyrchu'r argymhellion yma. Nodir y swm ynghyd â'r hyd uchaf ar gyfer buddsoddiadau, er cyfyngir at flwyddyn neu llai ar hyn o bryd, yn dibynnu ar statws bob sefydliad.

## 6. SGÔP

Ni fydd y strategaeth arfaethedig yn delio gyda'r arian sy'n cael ei ddal gan reolwyr buddsoddi y Gronfa ar gyfer setliadau.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol atodol am 2014/15, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A), a nodir y rhestr o wrthbartion cyfredol a ddangosir yn Atodiad B.

7.2 Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2014 ymlaen.

**ATODIAD A**

# DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2011 fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer (Rhifyn 11): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig a elwir y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* ym mis Ebrill 2010 sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

1.4 Mae'r Awdurdod wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risgiau'n llwyddiannus yn greiddiol i strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Y Cefndir Economaidd

Mae Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr trwy ei ganllaw diweddaraf yn ymroddedig i gadw cyfraddau polisi yn isel am gyfnod estynedig gan ddefnyddio cyfradd diweithdra Arolwg y Llafurlu o 7% fel trothwy ar gyfer yr adegau pan fyddai'n ystyried cynyddu cyfraddau llog ai peidio, yn amodol ar rai *knock-outs* penodol. Roedd diweithdra yn 7.7% ym mis Awst 2013, ond ni ragwelir y bydd yn syrthio islaw'r trothwy tan 2016, oherwydd gweithlu hyblyg y DU.

Mae'r llif credyd i gartrefi a busnesau yn gwella'n araf bach ond mae dal islaw'r lefelau cyn yr argyfwng. Bydd y cwymp mewn chwyddiant prisiau defnyddwyr o 5.2% ym mis Medi 2011 i 2.7% ym mis Medi 2013 yn caniatáu cynnydd gwirioneddol mewn cyflogau (h.y. ar ôl chwyddiant) i droi'n bositif a chynorthwyo defnyddwyr i wario.

Mae data twf cryfach yn 2013 (0.4% yn Ch1, 0.7% yn Ch2 a 0.8% yn Ch3) ynghyd â chynnydd mewn prisiau eiddo, yn bennaf o ganlyniad i fentrau'r llywodraeth i hybu benthyg morgeisi, wedi peri'r marchnadoedd i brisio cynnydd cynt yn y cyfraddau na'r hyn a warantwyd dan Ganllaw'r Dyfodol a'r cefndir economaidd ehangach. Fodd bynnag, gyda thwf swyddi'n cynyddu'n araf, nifer o weithwyr yn gweithio oriau byrrach nag y dymunant a'r toriadau i fudd-daliadau yn gwaethygu, dim ond twf graddol a gawn mae'n debyg. Mae Arlingclose yn rhagweld y bydd y MPC yn parhau i gadw cyfraddau llog yn isel hyd nes bydd yr adferiad yn argyhoeddiadol ac yn gynaliadwy.

Yn yr UD, mae'r disgwyliadau y bydd y raddfa prynu asedau'n arafu ('*tapering*') gan y Gronfa Ffederal ac y bydd diwedd ar brynu asedau pellach yn parhau i lywio'r marchnadoedd ariannol. Ni wnaeth y Gronfa Ffederal arafu'r gyfradd ym mis Medi ac mae wedi chwarae lawr y potensial am hyn yn y tymor agos. Mae'n fwy tebygol nawr y byddant yn arafu yn fuan yn 2014 a fydd yn gymorth i farchnadoedd bond ac ecwiti yn y cyfamser.

2.2 **Rhagolygon credyd**

Mae'r risg credid o fethiannau bancio wedi lleihau'n sylweddol, ond nid yw wedi diflannu'n llwyr. Mae newidiadau rheoleiddio ar droed yn y DU, yr UD ac yn Ewrop i symud draw o'r '*bail-outs*' i'r banciau a gyfyd yn y blynyddoedd cynt i raglenni datrys banciau lle caiff cyfranddalwyr, rhai sy'n dal bondiau a chredydwyr heb warant eu 'hebrwng i mewn' i gymryd rhan mewn unrhyw broses adfer. Mae hyn eisoes yn amlwg yng nghyswllt y rhai sy'n dal dyled israddol a gyflwynwyd gan y Co-op, gan y bydd toriad ar fuddsoddiadau '*bail-in*' gan gyrff gwarant/ecwiti amgen. Mae cynigion hefyd i'r UE ddiwygio sut caiff Cronfeydd Marchnad Arian eu rheoleiddio a fydd, mae'n debyg, yn peri'r cronfeydd hyn i symud i sail VNAV (*variable net asset value*) a cholli eu statws credyd 'AAA'. Bydd amrywio buddsoddiadau rhwng gwrthbartïon sydd â statws credyd derbyniol er mwyn lliniaru'r risg o '*bail-in*' yn dod yn fwy a mwy pwysig yn wyneb y datblygiadau hyn.

2.3 **Rhagolygon Cyfraddau Llog**

Rhagolygon Arlingclose yw y bydd y Gyfradd Banc yn aros yn fflat tan yn hwyr yn 2016, a bod mwy o risg i'r cyfraddau fod yn uwch tuag at ddiwedd y cyfnod dan sylw, fel y dengys y tabl isod. Disgwylir i enillion gilt godi dros y cyfnod dan sylw a disgwylir i giltiau tymor canolig a thymor hir godi rhwng 0.7% ac 1.1%.

2.4 Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod i'w weld yn ***Annex A***.

2.5 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.4% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd.

## 3. Y Cyd-destun Lleol (Sefyllfa benthyca net) - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

## 4. Y Strategaeth Fenthyca - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

## 5. Y Strategaeth Fuddsoddi

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Awdurdod wedi amrywio rhwng £48 a £81 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys balansau arian Gronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael ei pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a

gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2014/15 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2014.

5.2 Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf.  Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

5.3 Gall yr Awdurdod fuddsoddi'r cronfeydd dros ben sydd ganddo gydag unrhyw un o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian ac amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo**

| **Gwrthbarti** | | **Cyfyngiad arian** | **Cyfyngiad amser** |
|---|---|---|---|
| Banciau a sefydliadau a chyrff gwarant eraill sydd â'u statws credyd tymor hir isaf a gyhoeddwyd gan Fitch, Moody's a Standard & Poor's fel a ganlyn: | AAA | £11m yr un | 5 mlynedd* |
| | AA+ | | 5 mlynedd* |
| | AA | | 4 blynedd* |
| | AA- | | 3 blynedd* |
| | A+ | | 2 flynedd |
| | A | | Blwyddyn |
| | A- | | |
| Banc cyfrif cyfredol yr Awdurdod (Barclays Bank plc) os yw'n methu â chyrraedd y meini prawf uchod | | £1m | y diwrnod nesaf |
| Llywodraeth Ganolog y DU (waeth beth yw'r statws credyd) | | anghyfyngedig | 10 mlynedd** |
| Awdurdodau Lleol y DU (waeth beth yw'r statws credyd) | | £11m yr un | 2 flynedd |
| Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig yn y DU sydd â statws credyd tymor hir isaf, wedi'i gyhoeddi, o A- neu uwch | | £5m yr un | 2 flynedd |
| Cymdeithasau Adeiladu yn y DU heb statws credyd | | £1m yr un | Blwyddyn |
| Cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill | | £6m yr un | am. |
| Unrhyw sefydliad arall, yn amodol ar asesiad credyd allanol a chyngor penodol gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod | | £5m yr un | 3 mis |
| | | £1m yr un | Blwyddyn |
| | | £100k yr un | 5 mlynedd |
| Benthyciadau busnes i gwmnïau lleol*** | | £3m yr un | 10 mlynedd |

* ond dim hwy na 2 flynedd mewn adneuon cyfnod penodol ac offerynnau anhylifol eraill

** ond dim hwy na 2 flynedd mewn adneuon cyfnod penodol ac offerynnau anhylifol eraill

*** Bydd rhoi'r benthyciadau hyn yn cael eu cymeradwyo trwy'r broses y manylir arni ym mharagraff 5.9 isod. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

5.4 Nid oes unrhyw fwriad i gyfyngu buddsoddiadau i adneuon gyda'r banc, a byddwn yn gwneud buddsoddiadau o bosib gydag unrhyw sefydliad sector cyhoeddus neu breifat sy'n cwrdd â'r statws credyd uchod. Mae hyn yn adlewyrchu tebygolrwydd llai y bydd llywodraeth y DU a llywodraethau eraill yn cefnogi banciau sy'n methu wrth i'r darpariaethau '*bail-in*' yn y *Banking Reform Act 2014* a *Bank Recovery and Resolution Directive* yr UE gael eu gweithredu.

Ymhellach i hyn, gall yr Awdurdod fuddsoddi gyda sefydliadau a chronfeydd cyfunedig sydd heb statws credyd, yn dilyn asesiad credyd allanol a chyngor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

5.5 **Banc Cyfrif Cyfredol**

Yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol a gynhaliwyd yn 2010, mae cyfrifon cyfredol yr Awdurdod yn cael eu dal gyda Barclays Bank plc – mae statws credyd y banc ar hyn o bryd uwchlaw'r statws A- gofynnol yn nhabl 2. Pe bai'r statws credyd yn disgyn islaw'r A-, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn parhau i adneuo arian dros ben gyda Barclays Bank plc cyn belled ag y gellir tynnu'r buddsoddiadau allan ar y diwrnod gwaith nesaf, a bod y banc yn cynnal statws credyd nad yw'n is na BBB- (y statws gradd buddsoddi isaf).

5.6 **Darparwyr Cofrestredig**

Mae Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig (a elwid gynt yn Gymdeithasau Tai) yn cael eu rheoleiddio'n llym gan yr Asiantaeth Tai a Chymunedau, ac maent yn debygol iawn o dderbyn cymorth gan y llywodraeth os oes angen. Bydd yr Awdurdod yn ystyried buddsoddi gyda Darparwyr Cofrestredig sydd heb statws, ond sydd â mesurau diogelwch credyd digonol, yn amodol ar dderbyn cyngor annibynnol.

5.7 **Cymdeithasau Adeiladu**

Mae'r Awdurdod yn cael sicrwydd ychwanegol o fframwaith rheoleiddio a rhaglen ansolfedd y cymdeithasau adeiladu, sy'n golygu yn y sefyllfa annhebygol bod cymdeithas adeiladu yn cael ei diddymu, byddai adneuon yr Awdurdod yn cael eu talu allan cyn adneuwyr adwerthol. Bydd yr Awdurdod felly'n ystyried buddsoddi gyda chymdeithasau adeiladu sydd heb statws credyd, lle mae dadansoddiad credyd annibynnol yn dangos eu bod yn ddigon diogel. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau i addasu rhaglen ansolfedd y cymdeithasau adeiladu ochr yn ochr â'i gynlluniau ar gyfer diwygio bancio ar raddfa eang, ac felly bydd buddsoddiadau gyda chymdeithasau adeiladu heb statws, neu rai â statws is, yn cael eu monitro'n barhaus.

5.8 **Cronfeydd Marchnad Arian**

Mae'r cronfeydd hyn yn gerbydau o fuddsoddiadau cronnus sy'n cynnwys adneuon gyda'r farchnad arian ac offerynnau tebyg. Y fantais i'r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi'u lledaenu'n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael. Caiff ffioedd o rhwng 0.10% a 0.20% y flwyddyn eu tynnu o'r llog a delir i'r Awdurdod. Bydd cronfeydd sy'n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac sy'n anelu at werth asedau net cyson yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar unwaith, tra bydd cronfeydd y mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau'r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod notis yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

5.9 **Sefydliadau Eraill**

Mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn buddsoddi arian gyda sefydliadau eraill hefyd, er enghraifft, trwy roi benthyciadau i fusnesau bach. Oherwydd yr ymddengys bod risg uwch gan fusnesau sydd heb statws credyd, gall buddsoddiadau o'r fath roi enillion sylweddol uwch. Fodd bynnag, defnyddir y rhain dim ond ar ôl derbyn asesiad credyd allanol ffafriol, ac ar gyngor penodol ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

5.10 **Cronfa Benthyciadau Lleol**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl o Fuddsoddiadau Amhenodedig uchod, a byddant am gyfnod uchafswm o 10 mlynedd. Mae cyfanswm gwerth y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o'r fath yn £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o'r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu gan ymgynghorwyr wedi'u penodi, a'r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyg yr arian.

5.11 **Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio graddfeydd statws credyd tymor hir gan y tair prif asiantaeth sy'n graddio statws credyd, sef Fitch Ratings, Moody's Investors Service a Standard & Poor's Financial Services i asesu'r risg o fuddsoddiadau'n diffygdalu. Bydd y statws credyd isaf sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i bennu ansawdd credyd, oni bai bod statws buddsoddiad penodol ar gael. Mae ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y graddfeydd wrth iddynt ddigwydd. Os yw statws credyd corff penodol yn cael ei israddio fel nad yw'n cwrdd â'r meini prawf buddsoddi a gymeradwywyd, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws A- rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*" yn Saesneg) fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

5.12 **Gwybodaeth Arall ar Ddiogelwch Buddsoddiadau**

Mae'r Awdurdod yn deall bod graddau statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfenwid diffygion credyd, datganiadau ariannol,

gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian yr Awdurdod, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.13 **Buddsoddiadau Penodedig**

Mae Canllaw LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n ddyledus i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
    - o Llywodraeth y DU,
    - o awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
    - o gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch.

5.14 **Buddsoddiadau Amhenodedig:** Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad dramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £30m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian | £35m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy’n is na [A-] | £7m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau mewn gwledydd tramor sydd â statws sy’n is na [AA+] | £7m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £50m |

5.15 **Cyfyngiadau Buddsoddi:** Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac arian y Gronfa Bensiwn sydd ar gael i gyfarch colledion ar fuddsoddiadau yn £48 miliwn ar 31 Mawrth 2014. Er mwyn sicrhau na fydd mwy na 23% o’r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael un cael eu rhoi mewn perygl pe bai un buddsoddiad sengl yn diffygdalu, yr uchafswm fydd yn cael ei fenthyg i unrhyw sefydliad unigol (ar wahân i Lywodraeth y DU) fydd £11 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth neu grŵp o gronfeydd dan yr un rheolwyr yn cael eu trin fel sefydliad unigol er dibenion cyfyngiadau. Rhoddir cyfyngiadau hefyd ar fuddsoddiadau yng nghyfrifon enwebedig broceriaid (e.e. *King & Shaxson)*, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel a ganlyn:

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £11m yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £11m fesul grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig gan yr un rheolwyr | £11m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae’n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £11m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £11m fesul gwlad |
| Darparwyr Cofrestredig | Cyfanswm o £14m |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £14m |
| Benthyciadau i fusnesau bach | Cyfanswm o £7m |
| Cronfeydd Marchnad Arian | Cyfanswm o £35m |

5.16 **Offerynnau wedi'u Cymeradwyo:** Gall yr Awdurdod roi arian ar fenthyg, neu fuddsoddi arian gan ddefnyddio unrhyw un o'r offerynnau a ganlyn:

- cyfrifon banc sydd â llog,
- adneuon a benthyciadau cyfnod penodol,
- adneuon a benthyciadau y gellir eu hadalw, lle gall yr Awdurdod fynnu eu bod yn cael eu had-dalu ar unrhyw adeg (gyda neu heb rybudd),
- adneuon a benthyciadau y gellir eu hadalw, lle gall y sawl sydd wedi benthyg yr arian ei dalu'n ôl cyn i'r ddyled aeddfedu, ond yn amodol ar uchafswm o £7 miliwn i gyd,
- tystysgrifau adneuon,
- bondiau, nodiadau, biliau, papur masnachol ac offerynnau eraill gwerthadwy, a
- cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill.

Gellir gwneud buddsoddiadau un ai ar gyfradd llog sefydlog, neu ar gyfradd gyfnewidiol sy'n gysylltiedig â chyfradd llog y farchnad, megis LIBOR, yn amodol ar y cyfyngiadau ar gyfraddau llog y gellir eu defnyddio isod.

5.17 **Rheoli hylifedd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

## 6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

## 7. Eitemau Eraill

7.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA neu Lywodraeth Cymru.

7.2 **Polisi ar Ddefnyddio Cytundebau (*Derivatives*) Ariannol:** Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â'r risg cyffredinol i'r strategaeth rheolaeth trysorlys.

7.3 **Hyfforddiant Buddsoddi:** Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA a sefydliadau priodol eraill.

7.4 **Ymgynghorwyr Buddsoddi:** Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

**Annex A – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2013**

**Rhagdybiaethau sylfaenol:**

- Bydd twf yn parhau i gryfhau gyda'r ail amcangyfrif ar gyfer y twf yn Ch3 yn 0.8% (felly heb ei ddiwygio). Y sector gwasanaethau sy'n parhau i lywio'r twf fwyaf, gyda chyfraniad hefyd gan y sector adeiladu.
- Mae'r gyfradd diweithdra wedi disgyn i 7.6%. Bydd pa mor gyflym mae'r mesur hwn yn disgyn yn ddibynnol ar y gweithlu'n ehangu'n arafach nag y mae'r economi yn tyfu, ynghyd â graddau cynhyrchiant.
- Mae'r CPI ar gyfer Tachwedd wedi disgyn i 2.1%, safle llawer mwy cyfforddus ar gyfer y MPC. Disgwylir i gynnydd ym mhrisiau '*utilities*' gadw'r CPI uwchlaw'r targed o 2% yn 2014, cyn gostwng eto.
- Y prif fesur yng Nghanllaw'r Dyfodol y MPC ar gyfraddau llog yw cyfradd diweithdra Arolygon y Llafurlu (LFS). Mae'r MPC yn bwriadu peidio â chodi'r Gyfradd Banc o'i lefel presennol o 0.5% hyd nes bod y gyfradd hon wedi disgyn i drothwy o 7% o leiaf.
- Mae'r lleihad yn yr ansicrwydd ynghyd ag ystwytho amodau credyd wedi arwain at gynyddu'r galw, ac mae llawer o hyn wedi treiddio i'r farchnad dai. Mewn ymateb i bryderon ynghylch 'swigen prisiau tai', mae Banc Lloegr wedi cyhoeddi y bydd yn cwtogi'r Cynllun Cyllid ar gyfer Benthyca (FLS), a fydd o hyn ymlaen yn canolbwyntio ar fenthyciadau i fusnesau yn unig.
- Bydd y MPC yn barod iawn i ddefnyddio teclynnau macro-ddarbodus a rheoleiddio i ymdrin â risgiau sy'n dod i'r fei (megis cwtogi'r FLS). Heb risgiau i un ai sefydlogrwydd prisiau neu sefydlogrwydd ariannol, ni fydd y MPC ond yn tynhau'r polisi pan fydd wedi'i argyhoeddi ynghylch cynaladwyedd tymor hir y twf economaidd.
- Disgwyliadau polisi ariannol y Gronfa Ffederal – bydd y raddfa prynu asedau'n arafu ('*tapering*') a bydd diwedd ar brynu asedau pellach – a bydd hyn yn parhau i lywio'r marchnadoedd ariannol. Bydd y raddfa prynu asedau'n dechrau arafu yn Ch1 2014. Bydd angen datrysiad i'r anghytundeb gwleidyddol yn y DU ynghylch y terfyn dyledion yn Ch1 2014.
- Mae'r mecanweithiau sydd gan yr UE mewn lle wedi lleihau'r risg o gwymp catastroffig ymysg yr holl wledydd. Mae'n bosib y bydd risgiau ac ansicrwydd gwleidyddol yn yr Eidal, Sbaen a Phortiwgal yn peryglu'r amgylchedd economaidd mymryn mwy sefydlog ar lefel gronnus Ardal yr Ewro (amheuon ynghylch hirhoedledd eu clymbleidiau). Mae'r ECB wedi trafod trydydd LTRO, wrth i amodau credyd aros yn heriol i fanciau Ewropeaidd.
- Mae data yn Tsieina wedi gweld gwelliant, gan leddfu pryderon y farchnad. Mae arweinwyr yn Tsieina wedi cyfeirio at dynhau eu polisi ariannol o bosib.
- Mae'r diwygio rheoleiddiol sy'n mynd rhagddo, a'r ffocws ar ailstrwythuro dyledion 'bail-in' yn debygol o barhau i ostwng y gyfradd ddyledion yn y sector banciau a chynnal y dagfa gredyd corfforaethol.

**Rhagolygon:**

- Mae ein llwybr arfaethedig ar gyfer cyfraddau llog tymor byr yn aros yn fflat. Mae'r marchnadoedd yn parhau i brisio i mewn cynnydd cynt yn y cyfraddau na'r hyn a warantwyd dan Ganllaw'r Dyfodol a'r cefndir economaidd ehangach. Ni fydd y MPC yn codi'r cyfraddau hyd nes ceir cyfnod parhaus o dwf cryf. Fodd bynnag, mae mwy o risg i'r cyfraddau godi ar ddiwedd y cyfnod rhagolwg dan sylw.

- Rydym yn parhau i ddarogan y bydd enillion gilt yn cynyddu yn ystod y tymor canolig. Nid oedd y cynnydd diweddar mewn enillion yn edrych cystal yng nghyd-destun y rhagolygon sylfaenol byd-eang a'r risgiau ynghlwm ag Ardal yr Ewro, Tsieina a'r UD.

| | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Downside risk | | | | | | | | | | | | | |
| 3-month LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.30 | 0.35 | 0.40 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.75 | 0.90 | 0.95 |
| Arlingclose Central Case | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.65 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.80 | 0.80 |
| Downside risk | | | 0.05 | 0.10 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | -0.35 | -0.35 | -0.35 |
| 1-yr LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.35 | 0.30 | 0.35 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.60 | 0.70 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.80 | 0.80 |
| Arlingclose Central Case | 0.90 | 0.95 | 0.95 | 0.95 | 1.00 | 1.05 | 1.10 | 1.15 | 1.20 | 1.25 | 1.30 | 1.40 | 1.40 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.45 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| 5-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 1.45 | 1.50 | 1.55 | 1.60 | 1.65 | 1.70 | 1.75 | 1.85 | 1.95 | 2.10 | 2.30 | 2.50 | 2.50 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |
| 10-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.65 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 2.55 | 2.60 | 2.65 | 2.70 | 2.75 | 2.80 | 2.85 | 2.90 | 3.00 | 3.10 | 3.30 | 3.50 | 3.50 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.75 | -0.80 | -0.80 | -0.80 |
| 20-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.25 | 3.30 | 3.35 | 3.40 | 3.45 | 3.50 | 3.55 | 3.65 | 3.75 | 3.85 | 4.05 | 4.15 | 4.15 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.70 | -0.75 | -0.80 | -0.80 |
| 50-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Arlingclose Central Case | 3.45 | 3.50 | 3.55 | 3.60 | 3.65 | 3.70 | 3.75 | 3.80 | 3.85 | 3.95 | 4.05 | 4.15 | 4.15 |
| Downside risk | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.55 | -0.60 | -0.60 | -0.60 | -0.65 | -0.70 | -0.75 | -0.80 | -0.80 |

**ATODIAD C**

## RHESTR O WRTHBARTÏON SYDD YN CWRDD A'R MEINI PRAWF AR HYN O BRYD

| Gwlad | Gwrthbartïon | Terfyn uchaf y Buddsoddiad £m | Uchafswm cyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim terfyn | Dim terfyn |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £30m (£30m) | 2 flynedd |
| Y DU | Santander UK Plc (Banco Santander Group) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Bank of Scotland (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Lloyds TSB (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Barclays Bank Plc | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Close Brothers** | £12m (£18m) | **Hyd at 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Clydesdale Bank (National Australia Bank Group) **GOHIRWYD 28/09/11**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Goldman Sachs International Bank** | **£10m** | **Hyd at 100 diwrnod** |
| Y DU | HSBC Bank Plc | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| **Y DU** | **Leeds Building Society** | **£1m** | **Hyd at 100 diwrnod** |
| Y DU | Nationwide Building Society | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | **NatWest (RBS Group)** | **£12m (£18m)** | **Dros nos yn unig** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | **Royal Bank of Scotland (RBS Group)** | **£12m (£18m)** | **Dros nos yn unig** ~~2 flynedd~~ |
| Y DU | Standard Chartered Bank | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group) | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Montreal | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Royal Bank of Canada | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Ffindir | Pohjola | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **BNP Paribas **GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group) ** GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **Credit Agricole SA (Credit Agricole Group) ** GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| **Ffrainc** | **Société Générale ** GOHIRWYD 08/11/13**** | ~~£12m (£18m)~~ | ~~Hyd at 100 diwrnod 2 flynedd~~ |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Almaen | **Landesbank Hessen-Thurnigen (Helaba)** | **£10m** | **Hyd at 100 diwrnod** |
| Yr Iseldiroedd | ING Bank NV | £12m (£18m) | **Hyd at 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Yr Iseldiroedd | Bank Nederlandse Gemeenten | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | DBS Bank Ltd | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | Oversea-Chinese Banking Corporation (OCBC) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Singapore | United Overseas Bank (UOB) | £12m (£18m) | **Hyd at 6 mis** ~~2 flynedd~~ |
| Sweden | Svenska Handelsbanken | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |
| Y Swistir | Credit Suisse | £12m (£18m) | **Hyd at 100 diwrnod** ~~2 flynedd~~ |
| UDA | JP Morgan | £12m (£18m) | **Hyd at flwyddyn** ~~2 flynedd~~ |

1. Mae terfyn o £18m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.
2. Mae'r cyfyngiadau amser yn y rhestr uchod yn perthyn i adneuon cyfnod penodol. Mae offerynnau cyfnewidiadwy / masnachiadwy fel CD's gyda therfyn o 5 mlynedd. Mae'r cyfyngiadau amser argymhellir yn gyfredol yn sylweddol is na hyn, ond mae'r cyfyngiadau a amlinellir uchod yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i'r posibilrwydd o sefydlogiad neu welliant mewn amgylchiadau credyd ac economaidd yn 2013/14.
3. Gallai'r rhestr hon newid, er enghraifft, os bydd gwrthbarti / gwlad yn cael eu huwchraddio, a'u bod yn bodloni ein teclynnau teilyngdod credyd. Yn yr un modd, os bydd gwrthbarti'n cael ei israddio, gellir cwtogi'r rhestr hon.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **17 MAWRTH 2014** |
| **TEITL** | **STRWYTHURAU LLYWODRAETHU CPLlL – BIL PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol y bydd newidiadau sylweddol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu deddfu dan y Bil Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus o ganlyniad i adolygiad yr Arglwydd Hutton o'r CPLlL a'r argymhellion yn ei adroddiad. Mae'r newidiadau'n effeithio ar y buddion y bydd gan aelodau'r cynllun yr hawl i'w derbyn yn y dyfodol. Hyd yn hyn, mae'r pwyslais wedi bod ar ddeddfu'r newidiadau hyn er mwyn cyflwyno'r cynllun cyfartal gyrfa (yn hytrach na chyflog terfynnol) erbyn 1 Ebrill 2014. Mae'r newidiadau yma wedi cael eu esbonio i holl gyflogwyr ein cronfa mewn cyfres o gyflwyniadau cyfredol.

1.2 Yn ychwanegol i'r newidiadau hyn, mae'r Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn darparu ar gyfer y gwaith o lywodraethu cynlluniau'r CPLlL. Bydd manylion y gofynion llywodraethu hyn yn cael eu hamlinellu mewn rheoliadau sydd eto i fynd drwy'r broses ddrafftio a'r broses ymgyngori.

1.3 Ystyria'r adroddiad hwn y gofynion llywodraethu a rôl a strwythur y byrddau pensiwn lleol yn benodol. Gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu sut y creda y dylid gweithredu'r trefniadau hyn yn ymarferol fel sail i ymateb i'r broses ymgynghori ar y rheoliadau newydd.

## 2. RÔL A STRWYTHUR Y BYRDDAU PENSIWN LLEOL

2.1 Mae'r Bil yn amlinellu pedair rôl benodol i gael eu cyflawni o fewn pob cynllun, sef:

- Yr Awdurdod Cyfrifol
- Rheolwr y Cynllun
- Y Bwrdd Pensiwn
- Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun cenedlaethol

2.2 Yn unol â'r Bil, yr **Awdurdod Cyfrifol** yw'r sawl sy'n gwneud rheoliadau i'r cynllun, ac yn achos y CPLlL, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a

Llywodraeth Leol yw'r person hwnnw. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i fod yn gyfrifol am y polisi.

2.3 **Rheolwr y Cynllun** fydd 'y person sy'n gyfrifol am reoli neu weinyddu'r cynllun' ac unrhyw gynllun statudol cysylltiedig. Mae cadarnhad wedi bod mai yn achos y CPLl, y Rheolwr Cynllun yw'r awdurdod sy'n gweinyddu yn unol â diffiniad cyfredol y rheoliadau CPLlL. Felly, Rheolwr y Cynllun i Gronfa Bensiwn Gwynedd bydd Cyngor Gwynedd fel corfforaeth yn hytrach fel person.

2.4 Mae'r **Bwrdd Pensiwn** yn fwrdd sy'n gyfrifol am gynorthwyo rheolwr y cynllun i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun, deddfwriaethau eraill sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu a gofynion y Rheoleiddwr Pensiynau. Ceir cadarnhad y bydd byrddau o'r fath yn weithredol ar lefel y cronfeydd o fewn y CPLlL.

2.5 Mae **Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun,** sy'n gorff cenedlaethol**,** yn gyfrifol am roi cyngor i'r Awdurdod Cyfrifol (yr Ysgrifennyd Gwladol) ac i'r Byrddau Pensiwn.

2.6 Felly, o dan ofynion y Bil, bydd y strwythur ar gyfer llywodraethu cynlluniau a gaiff eu gweinyddu'n lleol, megis y CPLlL, fel a ganlyn

a) **Lefel y Cynllun**

Ar lefel y cynllun, yr **Awdurdod Cyfrifol** (yr Ysgrifennydd Gwladol) sy'n gyfrifol am bolisi ac am sefydlu rheoliadau.

Bydd gan **Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun** gylch gorchwyl eglur i gynghori'r **Awdurdod Cyfrifol** ar unrhyw newidiadau rheoleiddiol y mae'n eu hystyried yn briodol. Bydd cylch gorchwyl ac aelodaeth y bwrdd hwn yn cael ei amlinellu yn y rheoliadau nad ydynt wedi'u drafftio eto. Er mwyn cynorthwyo'r broses honno, mae bwrdd cysgodol yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd er mwyn profi'r strwythur hwn cyn ei amlinellu yn y rheoliadau.

b) **Lefel y Cronfeydd**

Ar lefel y cronfeydd, mae **Rheolwr y Cynllun** yn rheoli ac yn gweinyddu'r cynllun gyda chymorth y **Bwrdd Pensiwn**.

2.7 Yn unol â'r Bil, mae dwy rôl benodol i'r awdurdod gweinyddu, mae un ohonynt (**Rheolwr y Cynllun**) yn swyddogaeth ymarferol iawn yn cynnwys gwneud penderfyniadau, rheoli a buddsoddi a'r dasg ychwanegol o sicrhau nad oes unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro ymysg unrhyw un o aelodau'r bwrdd pensiwn.

Mae'r ail rôl (y **Bwrdd Pensiwn**) yn ymddangos i fod yn rôl sy'n ymwneud mwy â chydymffurfiaeth a chraffu gyda chyfrifoldeb i sicrhau bod **Rheolwr y Cynllun** yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol.

Mae'r Bil yn darparu'n fwriadol i reoliadau'r cynllun ganiatáu i'r **Bwrdd Pensiwn** naill ai fod yr un fath â'r pwyllgor pensiynau statudol presennol neu i fod yn gorff ar wahân.

2.8 Fel yr awdurdod gweinyddol, mae gan Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd Bwyllgor Pensiynau, sydd eisoes yn perfformio nifer o'r swyddogaethau a amlinellir yn y Bil - gan gynnwys swyddogaethau y bydd yn rhan o rôl **Rheolwr y Cynllun** yn ogystal â swyddogaethau eraill y bydd yn rhan o rôl y **Bwrdd Pensiwn.** Fel rhan o ymarferiad ymgynghori sydd ar y gweill, mae angen i ni ystyried beth fyddai'r ffordd orau i gyflawni'r ddwy rôl benodol a ddisgrifir gan y Bil, naill ai o fewn ein pwyllgor presennol neu o fewn dau strwythur ar wahân.

## 3. YMGYNGHORI AR LYWODRAETHU'R CPLlL

3.1 Y bwriad yw na fydd y Cronfeydd eu hunain yn cael dewis sut i gyfarfod â gofynion y Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus o ran y strwythur, bydd hyn yn cael ei benderfynu yn genedlaethol ar gyfer y CPLl yn ei gyfanrwydd.

3.2 Felly, y disgwyl yw y bydd angen meddwl yn ofalus wrth fynd drwy'r broses ddrafftio a'r broses ymgynghori, i sicrhau bod budd-ddeiliaid y cynllun yn cael cyfle i ystyried rhinweddau naill ai defnyddio'r pwyllgor pensiynau statudol presennol neu gorff ychwanegol ar wahân ar lefel y Cronfa.

3.3 Ymddengys y byddai'n gyfleus o ran gweinyddiaeth i alluogi i'r un pwyllgor gyflawni'r ddwy rôl (rheolwr y cynllun a'r bwrdd pensiynau) pe bai hynny hyd yn oed ond o ran yr amser a'r adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae yna rai materion sylweddol y dylid eu hystyried:

- Mae'r rolau yn wahanol iawn ac efallai y bydd angen gwahanol adnoddau, er enghraifft, sgiliau buddsoddi yn un rôl a sgiliau archwilio yn y llall.
- Efallai na fydd un cyfansoddiad pwyllgor yn medru cynnwys cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau rôl rheolwr y cynllun a 'rôl gynorthwyol' y bwrdd pensiynau'n effeithiol.
- Bydd yn anodd i un pwyllgor gweithredu ac arddangos y swyddogaethau craffu gwahanol.
- Mae'r bil yn gofyn i'r rheoliadau bennu y dylid cael yr un nifer o gynrychiolwyr gyflogwyr a chynrychiolwyr aelodau ar y bwrdd pensiwn. Byddai cyfuno'r ddwy rôl yn golygu gweithredu'r gofyniad hwnnw ar gyfer y pwyllgor sy'n gyfrifol am y ddwy rôl.

3.4 Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto o ran a fydd modd dirprwyo rolau'r **Bwrdd Pensiwn** a **Rheolwr y Cynllun** i bwyllgorau ar wahân neu i'r un pwyllgor.

## 4 ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r pwyllgor ystyried sut y mae'n dymuno i'r rheoliadau adlewyrchu ei sefyllfa er mwyn medru ymateb yn effeithiol i'r rheoliadau drafft pan ddônt i'r amlwg yn ddiweddarach eleni.